YR YMOFYNYDD.

Rhif. 8.] AWST, 1859. [Ail Gyfres.

SEFYLLFA WAREIDDIOL Y CYMRY.

Y Traethawd gwobrwyedig yn Eisteddfod Cymrodorion Dirwestol Merthyr Tydfil, Nodolig, 1856.*

Gan Thomas Stephens, Merthyr.

Y mae cenedl y Cymry, yn ei chysylltiad cenedlaethol *(ethnological)*, a'i hynafiaeth, yn rhagoroldeb yr iaith Gymraeg, yn nisgleirdeb ei chrefydd, hynodrwydd ei moesoldeb, a neillduolrwydd ei sefyllfa bresennol, yn ffurfio testun gordeilwng o fyfyrdod; a gresyn yw nad oes genym hanes awdurdodol o honi, er budd i ni ein hunain, ac er dwyn estroniaid i well adnabyddiaeth o wlad, nodweddion, iaith, llenyddiaeth, a chofnodion yr hen Gymry. Mae olion y genedl yn britho hanes foreuaf yr hil ddynol; mae ei chofnodion yn estyn o'r gorllewin i'r dwyrain, o'r ganrif bresennol i agos amser y diluw; ac y mae ei chof a'i gweithredoedd yn ffurfio rhan odidog o hanes y diriogaeth a'r deyrnas fawreddocaf ar wyneb y ddaear. Estyn ei hadgofion oddiyma i ddechreuad hanesyddiaeth, o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg dros hyd a lled amser, nes myned ar ymgûdd yn niwl a chymylau y boreufyd. Yr oedd y Cymry ymhlith poblogion boreuaf Ewrop, pan oedd y wlad etto yn anghyfannedd, yn rhanedig rhwng bwystfilod rheibus, ac heb ddelw dyn o fewn ei therfynau; hwynt-hwy a enillasant ynys Prydain oddiar eirth a bleiddiaid, ac a roddasant gareg sylfaen ei godidogrwydd presennol; gwrthsafasant dros ddeuddeg cant o flynyddau holl ymosodiadau y Rhufeiniaid, y Saeson, y Daniaid, a'r Normaniaid; ac wele ffrwyth eu gwroldeb! Er holl ddichellion eu gwrthwynebwyr, ac er holl chwyldroadau amser, wele ni yma etto, a'n traed ar fryniau ein hynafiaid, ein hanneddleoedd yn y dyffrynoedd a feddiannent hwythau, ac awelon y nef yn cludo gweddiau at orseddfainc y Goruchaf yn yr un iaith a esgynai oddiyma filoedd o flynyddau yn ol: fel braidd na chredwn eiriau yr hen Gymro o Bencadair, yn Sir Gaerfyrddin, a dystiai, er ys saith can' mlynedd, y byddwn yma hefyd hyd ddydd y farn

* Cyhoeddir y Traethawd hwn trwy ganiattad y Pwyllgor; a theimla Mr. Stephens a ninnau yn ddioichgar iddynt am eu hynawsder. Testun y gystadleuaeth, fel ei rhoddid gan y Cyfeisteddfod, ydoedd—"Traethawd ar Sefyllfa Wareiddiol y Cymry, ynghyda'r hyn a wnaethant tuag at Wareiddiad y Byd; yn cynnwys hanes feddyliol a moesol y genedl, ynghyda chylch ac ansawdd ei dylanwad yn ei Chyfnodau Derwyddol a Christionogol; ac hefyd ystyriaeth o'r gofyniad, Os meddai gyfundrefn o Athroniaeth, &c."—Gol.

fawr, yn moli Duw yn ngwlad ein tadau, ac yn ein pur iaith gyntefig.* Dyrchafasant fawl i'w Creawdwr yn eithafion amser, canasant yr un anthem unieithog yn eu treigliad dros dir a môr yn y canrifau lawer a aethant heibio, a dichon ei fod yn rhan o fwriad yr Anfeidrol i'r un llafar barhau yn y Dywysogaeth oddiyma i dragywyddoldeb.

Gofynai testun mor fawreddog gynneddfau dysglaer a dysgeidiaeth helaeth mewn unrhyw hanesydd a'i triniai; ond er mor bwysig yw y gorchwyl, gobeithir y cyfyd yn fuan rhyw gawr Cymreig i'w gymeryd mewn llaw. Ar yr achlysur presennol nid oes galwad arnom ni i ymaflyd yn y baich hwn; a bydd yn ddigon i ni, wedi taflu brasolwg dros y maes eang yma, gyfyngu ein sylw at ddau neu dri o gofnodau neillduol. Mae testun y Cymrodorion yn dosbarthu ei hun yn naturiol i bump a ranau; ac er mwyn hwyluso y traethawd, bydd yn ofynol i ni eu nodi yma, a'u cadw ar wahân. Ydynt,—I. Gwareiddiad y Cymry yn eu Cyfnod Derwyddol. II. Eu Gwareiddiad yn eu Cyfnod Cristionogol. III. A oedd ganddynt Athronddysg neillduol? IV. Cyfran y Cymry yn Ngwareiddiad y Byd. V. Sefyllfa Wareiddiol y genedl yn bresennol. Rhestrir hwynt yma yn eu cysylltiad amseryddol; ac ymdrinir â hwynt yn ol yr un drefn.

I. Y Cyfnod Derwyddol.

Y mae y Cymry yn ddosbarth o'r teulu Celtig, ac yn perthyn yn agos i drigolion cyntefig yr Iwerddon a'r Alban, ac yn agosach etto i gyntefigion Cernyw a Llydaw; ac y mae yn hysbys, ar un llaw, fod y teulu Celtig wedi deilliaw o'r dwyrain, ac ar y llaw arall, mai hwy oedd y dynion cyntaf a boblogasant y cyfandir Ewropeaidd. Tarddasant oddiwrth Gomer fab Japhet; yr oeddent yn adnabyddus, dan yr enw Gomeriaid, fel trigolion gogleddol, i'r prophwyd Ezeciel; a bernir mai yr un bobl oeddent â Chimmeriaid Homer, a Galatiaid y Testament Newydd, a Chimbri yr haneswyr Rhufeinig. Mae eu hanes gyfandirol yn gymysgedig âg eiddo eu perthynasau Celtig, fel y mae yn anhawdd ei ddadgysylltu; ac nid oes digon o grybwylliadau cyfyngedig i'r Cymry yn neillduol i'n galluogi i ffurfio barn eglur ynghylch eu gwareiddiad yno. Gan hyny, bydd yn well i ni gadw golwg ar ynys Prydain yn unig. Ac hyd yn nod o fewn i'r terfynau hyn, nid yw y testun yn rhydd oddiwrth ddyryswch. Bernir gan rai dysgedigion mai nid y Cymry oedd poblogion cyntaf yr ynys; iddynt hwy yru allan y bobl Wyddelig i'r Iwerddon a'r Alban; ac iddynt sefydlu eu hunain yn eu lle. Rhaid gadael hwn yn bwnc agored. Ond y mae etto un pwnc arall. Dywedir, yn y Trioedd, i'r Cymry, y Brython a'r Lloegrwys, feddiannu yr ynys rhyngddynt; ond y mae y Trioedd yn analluog i benderfynu trigle y Brython. Gwyddom fod y Lloegrwys yn y rhanau dwyreiniol—yn y *Mid-*

* Hoare's Giraldus, ii. 361. "During the military expedition which king Henry the Second made in our day against South Wales, an old Welshman at Pencadair, who had faithfully adhered to him, being desired to give his opinion about the royal army, and whether he thought the rebels would make resistance, and what would be the final event of this war, replied, 'This nation, O king, may now as in former times, be harassed, and in a great measure weakened and destroyed by your and other powers, and it will often prevail by its laudable exertions; but it can never be totally subdued through the wrath of man, unless the wrath of God shall concur. Nor do I think that any other nation than this of Wales, or any other language, whatever may hereafter come to pass, shall in the day of severe examination before the Supreme Judge, answer for this corner of the earth."

land and Eastern Counties, fel eu gelwir yn bresennol; a chymerir yn ganiataol fod y Cymry yn y parthau gorllewinol; ond yn y cyfeiriadau henaf, nid oes un son am y Cymry. Y Brython oedd yr unig bobl adnabyddus i ysgrifenwyr Groeg a Rhufain; ac y mae yn ddiammheuol mai y Brython a roddasant eu henw i ynys Prydain. Y gwir yw, mai dau enw ar yr un bobl yw Brython a Chymry. Yn ngweithiau beirdd y chweched ganrif, Brython yw enw y bobl, a Chymry yw enw y wlad;* ac y mae yn amlwg oddiwrth eu cyfansoddiadau, mai yr un iaith oedd y Frythoneg a'r Gymraeg. Gan gymeryd hyn yn ganiataol, awn yn y blaen.

Nid yw y Pwyllgor wedi penderfynu pa bryd y mae y cyfnod derwyddol yn diweddu, na'r cyfnod cristionogol yn dechreu; ond dylid gosod terfynau iddynt. Yn ol barn yr ysgrifenydd, terfynwyd y cyfnod derwyddol yn y flwyddyn O.C. 61; ac nid yw y cyfnod cristionogol yn dechreu hyd y bummed ganrif. O ganlyniad, yr oedd cyfnod arall rhyngddynt. Gelwir hwn y cyfnod Rhufeinig; ond ymdrinir ag ef fel y cyfnod derwyddol.

Mae tri o dystiolaethau gwahanol ynghylch gwareiddiad y Cymry yn oes y Derwyddon, sef—1. Y Trioedd Hanesyddol, a'r *Iolo MSS.*; 2. Cyfreithiau Dyfnwal Moelmud; 3. Yr Haneswyr Rhufeinig. Ac y mae traethiadau y ddau flaenaf yn hollol anghyson âg eiddo yr olaf. Nid yw tywyllwch a goleuni, du a gwyn, yn fwy croes un i'r llall nag yw yr awdurdodau hyn; ac nid yw yn bosibl i ni dderbyn un o honynt heb lwyr wrthod y llall. Gan hyny, gwrthodir yr ysgrifau Rhufeinig gan amryw haneswyr Cymreig, tra y mae eraill yn collfarnu y Trioedd a Chyfreithiau Dyfnwal fel casgliadau diweddar, annheilwng o ystyriaeth fel awdurdodau hanesyddol. Yn ngwyneb yr amrywiaeth hwn, y mae o bwys i ni farnu drosom ein hunain.

Yn ol tystiolaeth Trioedd y drydedd gyfres,† arweinydd cyntaf y genedl Gymreig i ynys Prydain oedd Hu Gadarn, yr hwn a'u dygodd "o Wlad yr Haf, a elwir Deffrobani, sef y lle mae Constinoblys." O herwydd y weithred hon rhestrir ef gyda Phrydain ab Aedd Mawr, ac â Dyfnwal Moelmud, fel Tri Phost Cenedl Ynys Prydain; gyda Phrydain a Rhitta Gawr, fel gweithredwyr y tair gwrthrym ardwy,—sef diddymiad gormes a difrod; gyda Choll ab Collfrewi ac Illtyd Sant, fel tri chyfarwysawg cenedl y Cymry, am mai efe a ddangoses iddynt y ffordd i drin tir; gyda Dyfnwal a Thydain Tad Awen, fel tri chynofydd y genedl, am mai efe wnaeth glud a gosgordd gyntaf; a chyda Gwyddon Ganhebon a Thydain, fel tri deifnogion cerdd a cheudawd, am mai efe "ddodes gyntaf ar gerdd dafawd gynnal cof a cheudawd." Heblaw hyn, yr oedd ganddo ddau o Ychain Bannog, pa rai a gyflawnasant un o dri phrif orchestwaith yr ynys, trwy lusgo afanc y llyn i dir fel na thores y llyn mwyach. Dywedir ymhellach i Prydain osod teyrnedd a gwladoliaeth ar yr ynys, pan nad oedd nac iawn na deddf cyn hyny, ac i'w gyfreithiau ef, a Dyfnwal, a Bran ab Llyr, gael eu barnu yn benorawl

* Dywed Aneurin—

"Tri theyrn maon
A ddyvu o Vrython
Kynri a Chenon
Kynrein o Aeron"—

yn Sir Aberteifi. Ceir y geiriau "Cymry garneddawg" gan y bardd Taliesin; a chan Llywarch hen—"Powys Paradwys Cymry." Cymry—sylwer, nid Cymru.

† Cynnwys y *Myvyrian Archæology* dair cyfres o Drioedd, o ba rai yr ail yw yr henaf, a'r drydedd yw y ddiweddaraf. Nid oes cyfeiriad at yr amser cyn Crist yn y ddwy henaf; ac nid yw yn gredadwy i'r drydedd gael ei ysgrifenu cyn yr unfed ganrif ar bymtheg.

ar bob trefnau ereill. Hefyd i Dyfnwal Moelmud wneyd dosbarth ar gyfreithiau, a breinniau, a defodau gwlad a chenedl; i Tydain Tad Awen wneyd trefn a dosbarth ar gof a chadw cerdd dafawd a'i pherthynasau, o'r hon drefn y dychymygwyd breinniau, a defodau dosbarthus ar feirdd a barddoniaeth beirdd Ynys Prydain gyntaf; ac i'r tri chyntefigion beirdd, sef Plenydd, Alawn, a Gwron, ddychymygu y breinniau a'r defodau y sydd ar feirdd a barddoniaeth; gan nad oedd cyn hyny na beirdd na barddoniaeth nid oedd arnynt ddosbarth drwyddedawg, ac nid oedd iddynt na breinniau na defodau, namyn a gaid o addwynder a syberwyd, yn nawdd gwlad a chenedl.*

Wele grynodeb o draethiad y Trioedd am yr oesoedd boreuol; ac os yw gredadwy, dengys fod y Cymry yn foreu iawn wedi cyrhaedd gradd uchel o wareiddiad. Yr oedd yr enwogion hyn, yn ol yr un awdurdodau, yn byw yn oes Prydain, a'i fab Dyfnwal; er nad ydys etto wedi penderfynu pa bryd yr oedd hyny, pa un ai mil o flynyddau cyn Crist, neu ynte bedwar cant; pa un a oedd Prydain yn fyw yn amser rhyfel Caerdroia (C.C. 1184), neu ynte a fu farw yn O.C. 85!† Dengys yr amrywiaeth yma o 1270 o flynyddau, nad ydyw yn awr ar dir hanesyddol; a'r gwir yw, na fu erioed y fath berson a Phrydain ab Aedd Mawr; nad yw yr enw ond camsyniad achyddol;‡ nad oes un son am y fath berson cyn yr unfed ganrif ar bymtheg; ac nad yw yr holl draethiad am ei gyfreithiau a'i drefniadau ond dychymygiad diweddar. Hercules y Groegiad, dan enw arall, yw Hu Gadarn; Tathan, un o'r hen seintiau Prydeinig, yw Tydain Tad Awen; mab i wr a laddwyd O. C. 584 oedd Gwron; ac Athraw Cerddorol yn y ddegfed ganrif oedd Alawn y bardd "cyntefig." Mae mwy o anhawsder ynghylch Plenydd a Gwyddon; ond nid oes un sail i gredu y crybwylliadau yn eu cylch. Mae profion mewnol ac allanol nad allasai Trioedd y drydedd gyfres gael eu cyfansoddi cyn y ganrif grybwylledig; ac nid yw yn bosibl i ni eu derbyn fel hanesiaeth awdurdodol. Hefyd, mae daearyddiaeth y Trioedd hyn gynddrwg a'u hanesyddiaeth; Ynys Ceylon, yn môr India—*Taprobane* y daearyddwyr Groegaidd—oedd Deffrobani; ac arwydd o anwybodaeth oedd ei chysylltu â Chonstantinople, neu GaerCystenyn.

Mae "cyfreithiau Dyfnwal" yn rhoddi mwy o wybodaeth ynghylch cyflwr y wlad yn amser eu hysgrifeniad; ac y mae yn ddiddadl fod Cymru y pryd hyny yn meddu graddau helaeth iawn o wareiddiad. Yr oedd ynddi frenhinoedd ac arglwyddi; meddygon a chyfreithwyr; ynadon, rheithwyr, a phleidwyr (*counsellors*); eglwysi a dinasoedd; ffeiriau a marchnadoedd; llewygion a gwyr llên; gofiaid, maenseiri a phrenseiri; beirdd ac arwyddfeirdd, a gwehyddion. Yr oedd barddoniaeth, a ffervlltiaeth, a llenoriaeth neu llyfryddiaeth, gymaint eu parch, fel y rhoddid hawl gyfreithlawn i bob ffervllt, a llenor, gael pum' erw o dir at ei gynnaliaeth; yr oedd y celfyddydau, a gwybodau moliannus, a gwybodau gwladol, a doethineb a dwyfoldeb, yn cael eu dysgu o dan ofal y llywodraeth; yr oedd llyfrau yn bethau cyffredin; yr

* *Myv. Arch.*, Cyf. ii, t.d. 57—71. Trioedd, 4, 36, 54, 56, 57, 58, 59, 92.

† Cymharer yr Iolo MSS, t.d. 333, 412, 429.

‡ Yr ydym i ddarllen Dyfnwal Prydain, ab Aedd Mawr,—*nid* Dyfnwal AB Prydain ab Aedd Mawr. Yr oedd yr achau cyntefig fel y canlyn:—Aedd Mawr; Dyfnfarth Prydain, llyny yw, Dyfnfarth brenin Prydain, wrth yr hon, yn yr hen ysgrifau, y golygid Ysgotland. Trowyd Prydain o enw gwlad yn enw dyn, a gwnawd Dyfnwal yn fab i'w deyrnas ei hun! Gweler achyddiaeth Harri VII. yn Caradoc, neu "Hanes Cymru," t.d. 782.

oedd rhybuddion *ysgrifenedig* mewn lleoedd cyhoeddus, a llawer o ddynion a fedrent lyfr a llythyr, ac ysgrifenu a darllen y Gymraeg yn gyfiawn; yr oedd y gyfraith yn sefydledig ac *yn ysgrifenedig;* yr oedd cof a chadw am ddadleuon cyfreithiol yn cael eu cadw mewn llyfr llys; yr oedd rheolau penderfynol ynghylch pob math o ddadleuon: ac yr oedd y llysoedd cyfreithiol yn debyg iawn i lysoedd barn yr oes bresennol. Bernid pob achos gan y brenin, neu arglwydd y cwmwd, a deuddeg o farnwyr rhaith, rheithwyr, neu *jurymen;* gwrandewid hawliwr ac amddiffynwr bob yn ail, ac yr oedd yno bleidwyr (*counsellors*) o bob ochr, a swyddogion eraill i gadw trefn yn y llys. Nid yw bosibl i ni sylwi ar y crybwylliadau hyn heb deimlo fod y Cymry yr oes hono yn genedl wareiddiedig, a'u bod mewn meddiant o ran helaeth o'r bendithion cymdeithasol a fwynheir gan eu disgynyddion yn ein dyddiau ni.

Ond pa gyfnod yn hanes y genedl oedd hwn? Dywed "Brut y Brenin-oedd" i Dyfnwal Moelmud deyrnasu o'r flwyddyn 694 cyn Crist hyd y flwyddyn 667. Ond a fernir yn bosibl fod yr ysgrifau a elwir yn Drioedd Dyfnwal Moelmud yn darlunio cyflwr y wlad chwech can' mlynedd cyn Crist? Mae dynion cyfrifol yn barnu eu bod; ond y mae eraill, ac yn eu plith Lappenberg, Aneurin Owen, a dynion cyffelyb, yn haeru mai ysgrifau diweddar ydynt—eu bod yn dwyn arwyddion o ddylanwad Rhufeinig a Saesonig, ac yn cynnwys amryw gyfeiriadau olynol i ddyfodiad Cristionogaeth; ac yr ydym ni yn tueddu i'r un farn. Dywedir iddynt gael eu cyfansoddi yn amser y Derwyddon; ond nid oes un son am y Derwyddon ganddynt. Dywedir eu bod wedi eu cyfansoddi cyn Crist; ond cyfeiriant at Forganwg, Ceredigion, Caerlleon ar Wysg, a lleoedd eraill nad oeddent wedi eu henwi am ganrifoedd lawer wedi hyny ac enwant fath o arian a elwid *Bygant*, neu Arian *Byzantium*, hen enw Caer Cystenyn, er nad oedd y Bygeint, neu y *Bezants*, fel eu gelwid, mewn rhediad cyffredin hyd y bymthegfed ganrif. Eto, dywedir nad oes un cyfeiriad ynddynt at Gristionogaeth, nac at ddefodau eglwysig; ac o ganlyniad, eu bod yn perthyn i gyfnod boreuach yn hanes y genedl. Ond erbyn chwilio, y mae ynddynt gyfeiriadau at "y groes fendigaid," at "efengyl Ieuan" neu Ioan, ac at "offeiriaid ac eglwysi Bangor, Clynog, a Phenmon." Mae yn wir fod y swyddog crefyddol yn cael ei alw yn "olychwydwr;" ond nid yw hyn yn brawf o hynafiaeth. Gair perthynol i Gristionogaeth yw "golychwyd," ac yn gyfystyr â "deisyfiad;" defnyddir ef gan William Salesbury wrth gyfieithu Ephes. vi. 18,* lle mae "deisyfiad" yn y cyfieithad cyffredin; a chan hyny, yr oedd y gair "golychwyd" mewn arferiad yn ac o amgylch y flwyddyn 1578. Hawdd casglu, gan hyny, fod "golychwydwr" yn perthyn i'r un cyfnod; ac y mae yn dygwydd yn ysgrifau Meurig Dafydd a Thomas Lewis, dau fardd a flodeuasant yn nghylch 1560 a 1590. Yn ngwyneb y ffeithiau hyn, mae yn anhawdd credu yn hynafiaeth Trioedd Dyfnwal; ac y mae yn fwy rhesymol i ni fabwysiadu'r casgliad, mai cyfreithiau Hywel Dda ydynt mewn gwirionedd, ac nad oes dim ond y titlau ffugiol wrth benau yr ysgrifau yn perthyn i Ddyfnwal Moelmud.

Yn eu ffurf bresennol, gellir, meddai Mr. Aneurin Owen, priodoli cyfreithiau Dyfnwal i'r unfed ganrif ar bymtheg;† ond nid ydym, gan hyny,

* "A gweddiwch bop amser a phop ryw weddi ac ervyn yn yr Yspryt: a gweliwch tuag at hyn y gyd a phop astudrwydd a *golochwyt* dros yr oll Sainctæ."—*Testament Salesbury.*

† *Owen's Laws and Institutes of Wales. Vol.* i., *pref.* xx.

i benderfynu na fu y fath berson, ac na fu deddfau perthynol iddo ef. Etto y mae yn anhawdd gwybod pwy oedd efe, pa bryd yr oedd yn byw, ac ymha le neu wlad y preswyliai. Dywedir ei fod yn frenin Cymru, cyn Crist 694; ond nid oes lle i gredu fod y wlad y pryd hyny dan *un* freniniaeth; nid yw Sieffrey o Fynwy yn ddigon o awdurdod am haeriad o'r fath, ac y mae pob peth a wyddom yn tueddu i brofi na fuasai un cof cenedlaethol am dano pe buasai fyw cyn Crist, gan fod Gildas, O.C. 560, yn dweyd nad oedd dim ysgrifau Cymreig yn ei ddyddiau ef. Nid oes ychwaith un sail i'r haeriad i Gildas gyfieithu ei gyfreithiau ef o'r Frythoneg i'r Ladinaeg, nac i'r brenin Alfred eu cyfieithu i'r Saesonaeg. Dywedir mewn Cronicl diweddar* i Hywel Dda seilio ei ddeddfau ar Drioedd Dyfnwal; ond y mae cyfreithiau Hywel ei hun, copi Gwynedd,† yn tystio iddo ef hollol ddiddymu pob rhan o ddeddfau Dyfnwal, ond ei reolau ef ar fesur tir. Nid oes, gan hyny, un rhan arall o gyfreithiau Dyfnwal yn awr ar gael; ac ofer dysgwyl am un goleuni oddiyno, hyd yn nod, yr hyn sydd ammheus iawn, pe buasai Dyfnwal fyw cyn Crist, ac yn Gymro diledryw.

Ond cyn collfarnu y tystion cartrefol, rhaid i ni ystyried fod pleidwyr y Nod Cyfrin yn hòni gwybodaeth neillduol ynghylch cyfnod y Derwyddon; a thra y mae rhai yn difenwi y Derwyddon fel paganiaid gwael, llygredig, ac ofergoelus, hwy a'u dyrchafant i uchelder anghyffredin o foesoldeb, ac a haerant fod eu daliadau mor rydd oddiwrth lygredigaeth coelgrefyddol, ag nad oeddynt nemawr neu ddim yn iselach, nag eiddo y Patriarchiaid eu hunain.‡ Ond, fel y dywed y Parch. T. Price, haeriad moel, diawdurdod, yw hwn a wneir o blaid y fath arddercliogrwydd ar ran y Derwyddon; ac hefyd un sydd groes i'r hyn y mae Dwyfol Ddadguddiad yn ei fynegu am gyflwr ysbrydol cenedloedd y byd.|| Ac ymhellach, yr wyf fi yn barnu mai cyfansoddiadau pur ddiweddar yw y Trioedd Barddas. Perthynant, yn nhyb yr ysgrifenydd i gyfundraeth hollduwiaethol *(pantheistic)* a ymdaenodd dros y parthau gorllewinol yn y canoloesoedd, yr hon sydd fwy adnabyddus fel heresi yr Albigensiaid; ac o ganlyniad deuant, dan sylw gyda mwy o briodolrwydd yn ol llaw.

Am hyny, awn yn y blaen. Nid oes genym un awdurdodau Cymreig a hawl i gael eu gwrandaw ynghylch yr oes dderwyddol; ac er diflased y peth, rhaid i ni ymddibynu yn hollol ar adroddiadau estroniaid.

(I'w barhau.)

* Llyfr Aberpergwm. *Myv. Arch.*, ii,, 486.

† *Owen's Laws. Venedotian Code*, i., 185.

‡ Gweler *The Patriarchian Religion of Britain; by the Rev. D. James, formerly of Kirkdale.*

|| Hanes Cymru, t.d. 14.

GWELED Y DIAFOL.

Dygwyddodd unwaith yn ein tref, i walch penwan o'r wlad, yr hwn oedd wedi arwain bywyd drwg, adgas, ac anonest, gael ei ddychrynu gan ddrychiolaeth y Diafol, fel y galwai hi. Dychymygodd i'r diafol siarad ag ef; ac wedi iddo draethu yr hanes wrth foneddwr Cristionogol, ag oedd yn byw ar ei bwys, a chanddo dipyn mwy o synwyr na'i hunan, gofynodd y boneddwr iddo a oedd yn sicr ei fod wedi gweled y diafol mewn gwirionedd. "Do, do, syr," meddai, "gwelais ef yn ddigon eglur. Ac yna dechreuasant yr ymddyddan canlynol.

Boneddwr. Ei weled! gweled y Diafol! A wyt yn sicr o hyny, Thomas?

Thomas. Ydwyf, ydwyf, yr wyf yn sicr ddigon o hyny, meistr; yn sicr y diafol oedd.

B. A ph'odd yr ydych yn gwybod taw y diafol oedd, Thomas? A oeddych wedi ei weled ryw dro o'r blaen?

T. Naddo, naddo, nid oeddwn erioed o'r blaen wedi ei weled, yn sicr ddigon; ond er hyn i gyd, gwn mai y diafol oedd.

B. Wel, os wyt yn sicr, Thomas, nid oes le dyweyd yn dy erbyn; attolwg, pa fath ddillad oedd am dano?

T. O na, syr, peidiwch cellwair â mi, nid oedd dillad am dano; yr oedd wedi ei wisgo â thân a brwmstan.

B. A oedd hi yn dywyll neu yn oleu dydd pan y gwelsoch chwi ef.

T. O! yr oedd hi'n dywyll iawn, waith yr oedd hi'n haner nos.

B. P'odd y gall'sech ei weled ynte? A oeddych yn gweled wrth oleu y tân yr ydych yn siarad am dano?

T. Na, na, ni roddes ef ddim goleu i mi; ond mi a'i gwelais er hyny i gyd.

B Ond ai yn y ty neu allan y dygwyddodd y peth?

T. Yn y ty, yn fy ystafell fy hun, pan yr oeddwn yn myn'd i'r gwely, y gwelais ef.

B. Wel, ynte, yr oedd genych ganwyll, onid oedd?

T. Oedd, yr oedd genyi ganwyll; ond yr oedd hi yn llosgi mor las, ac mor dywyll!

B. Wel, ond os oedd y diafol wedi ei wisgo â thân a brwmstan, rhaid iddo roddi rhywfaint o oleu i chwi; nid allasai fod y fath dân ag yr ydych chwi yn son am dano heb roddi goleu.

T. Naddo, naddo, ni roddodd oleu; ond mi aroglais i ei dân a'i frwmstan; gadawodd beth o'r tawch ar ol, wedi iddo fyned.

B. Wel, felly yr ydych yn dyweyd fod tân ganddo, ond na roddodd oleu; tân dieflig oedd yn wir; oedd e'n teimlo yn dwym? a oedd yr ystafell yn boeth cyhyd ag y buodd ynddi?

T. Nac oedd, nac oedd, ond yr oeddwn i yn ddigon poeth hebddo, waith fe nodwys i yn y fath chwys mawr gan ofn.

B. Eithaf da, yr oedd oll yn dân, meddwch, ond heb oleu na gwres; yn unig tebygech ei fod yn drewi o frwmstan: attolwg, o bwy lun oedd? i beth oedd debyg? waith dywedwch i chwi ei weled.

T. O syr! mi welais ddau lygad mawr, fel dwy *saucer*, yn hyll-edrych, digon i yru neb maes o'i synwyrau.

B. Ai dyna'r cwbl a welsoch?

T. Na, mi welais yr ewin hollt yn eglur iawn; yr oedd mor fawr ag ewin un o'r bustych ag sydd yn aredig.

B. A welsoch chwi ddim o'i gorph heblaw ei lygaid a'i draed? Gweledigaeth braf yn wir!

T. Naddo, yr oedd hyny yn ddigon i wneyd i fi wingo.

B. I wingo! Beth, a ddarfu i chwi redeg bant oddiwrtho?

T. Naddo, ond mi ddiengais i'r gwely ar un naid, a suddais i lawr a thynais y dillad droswyf yn glòs.

B. Ac i beth y gwnaethoch hyny?

T. I guddio fy hun oddiwrth y fath greadur arswydus.

B. P'am? os mai diafol mewn gwirionedd oedd, ydych yn tybied y buasai y dillad yn eich dyogelu rhagddo?

T. Na, nid wyf yn gwybod; ond yn fy mraw, yr oedd y cyfan a allaswn wneyd.

B. Ie, yr oedd hyna mor gall a'r gweddill; ond dewch, Thomas, i fod dipyn yn ddifrifol, attolwg, a siaradodd ef â chwi?

T. Do, do, mi glywais lais; ond pwy oedd, Duw sy'n gwybod.

B. Pa fath o lais oedd? oedd e'n debyg i lais dyn?

T. Nac oedd; llais cryglyd cas oedd, fel broga yn crawcian; ac fe ngalwodd ddwy waith wrth fy enw, Thomas Dawson, Thomas Dawson!

B. Wel, ddarfu i chwi atteb?

T. Naddo i; 'dall'swn i ddim siarad gair i gadw 'mywyd; pa'm, yr o'wn ar farw gan ofn.

B. A ddywedodd rywbeth arall?

T. Do: pan welodd nad o'wn i yn siarad, fe ddywedodd, Thomas Dawson, Thomas Dawson, Thomas Dawson, adyn truenus wyt; ti ddwgaist —— neithiwr; os nad edifarhei, mi a'th gariaf bant yn fyw i uffern, a thi a gei dy ddamnio, yr adyn!

B. Ac a oedd e'n wir, Thumas? a o'it ti wedi dwgyd —— y nos o'r blaen?

T. Yn wir, meistr, oedd yn wir; ond yr oedd yn ddrwg iawn genyf yn ol llaw.

B. Ond sut y gallasai'r diafol wybod, Thomas?

T. Sut! fe wyddai'n siwr ddigon; pa'm, maent hwy yn dweyd y gwyr efe bob peth.

B. Wel, ond pa'm y dylasai ef fod maes o hwyl am hyny? buasai yn fwy tebyg o'th annog i ddwgyd drachefn, a thrachefn, ddeugain gwaith, na dy rwystro; 'dall hwn ddim bod y diafol, Thomas.

T. Gall, gall, syr. Y diafol oedd yn sicr.

B. Ond fe geisiodd genych edifarhau, yr ydych yn dyweyd.

T. Do, darfu iddo fy mygwth, os na wnawn.

B. Pa'm, Thomas, a ydych yn meddwl y buasai y diafol am i chwi edifarhau?

T. Wel, na, mae hyna yn wir hefyd; 'dwyf ddim yn gwybod beth i ddweyd am hyna; ond beth allasai fod? Y diafol oedd, yn sicr ddigon, nid allasai fod yn neb arall.

B. Na, na, Thomas, nid y diafol na dim arall oedd, ond dy ddychymyg dychrynedig di. Yr oeddit ti wedi dwgyd, a chan mai pechadur ieuanc oeddit y ffordd yna, brawychodd dy gydwybod di, a dywedodd wrthyt y buasai'r diafol yn dy gario ymaith, ac y cawsit dy ddamnio; ac yr oeddit wedi dy berswadio gymmaint mai felly y buasai, fel y darfu i ti o'r diwedd ddychymygu ei fod wedi dyfod mewn gwirionedd—dy fod wedi ei weled a'i glywed,—tra y galli di fod yn sicr, os âi di i ddwgyd bob nos daw y diafol i ddal y ganwyll, neu i wneyd unrhyw beth i'th helpu; ond nis gwnaiff byth aflonyddu arnat, mae yn ormod o gyfaill i dorygioni. Nid oedd bosibl, Thomas, mai y diafol oedd; dim ond dy euogrwydd dy hun oedd yn dy ddychrynu, ac yr oedd hyny yn ddigon o ddiafol, pe byddet ti yn gwybod y gwaethaf,—ni raid i ti wrth elyn arall.

T. Wel, mae hyna yn wir, meistr: gallai dyn feddwl na fuasai y diafol yn erchi genyf edifarhau, y mae hyna yn eithaf gwir; ond yn sicr, y Diafol oedd wedi'r cwbl.

DANIEL DE FOE.

FEL y mae'r olew yn dofi cynddeiriogrwydd y môr, felly y mae addfwynder yn llonyddu terfysg y bobl.

Pan byddo dyn yn addef ei gamsyniad, nid yw ond dywedyd mewn geiriau craill ei fod yn gallach nag yr oedd.—SWIFT.

Y mae ein pechodau fel cysgod yn ein dilyn beunydd.

Y rhai a ymborthant ar ddoethineb a fyddant etto yn newynog, a'r rhai a'i hyfant a fyddant etto yn sychedig.

YCHYDIG FEDDYLIAU AR Y DRINDOD.

YSGRYTHYROL, RHESYMOL, AC HANESYDDOL.

O'r Christian Freeman.

Rhif. I.

Yr athrawiaeth o Dduwdod-Tri-Un yw sylfaen duwinyddiaeth Trindodawl: etto i gyd nid yw'r fath frawddegau a *Thrindod, Duwdod-Tri-Un, Un-yn-Dri*; *Tad, Mab, ac Ysbryd Glan* yn un Duw, i'w cael yn un man yn yr Ysgrythyr.

Y mae Undod Duw yn cael ei ddysgu yn eglur ym mhob rhan o'r Ysgrythyr. "Nid oes ond *un Duw*," "*Duw* sydd *un*." Y cyntaf o'r holl orchymynion yw, "Clyw Israel, yr Arglwydd ein Duw ni, un Arglwydd yw." "Yr *un* Sanctaidd, goruchel a chadarn." Dyma iaith gyffredinol yr Ysgrythyrau.

Y mae'r gair Jehofa yn cael ei arfer lawer o filoedd o weithiau yn yr Ysgrythyrau am yr *un* Bod, ac nid arall. Y mae'r gair Duw yn cael ei gymhwyso dros 1300 o weithiau yn y Testament Newydd i fod gwahanol oddiwrth Iesu Grist. Y mae Duw yn cael ei alw ugain gwaith yn "Dduw Iesu Grist," a 68 gwaith yn Dad iddo.

Ychydig iawn yw'r adnodau sydd yn cael eu dwyn o'r Ysgrythyrau er profi y gred Drindodaidd. Y mae rhai o'r Trindodiaid mwyaf enwog wedi cyfaddef mai bach iawn yw'r prawf Ysgrythyrol dros yr athrawiaeth: y maent hefyd wedi cydnabod absennoldeb hollol y geiriau hyny, o'r Bibl, yn y rhai y mae yr athrawiaeth hon yn cael ei gosod allan yn gyffredin yn yr eglwysi.

Y mae Dr. Hooker, Trindodwr, yn dywedyd, "Nid yw ein cred yn y Drindod, yng nghyd-dragywyddoldeb Mab Duw â'i Dad, yn neilliad yr Ysbryd o'r Tad a'r Mab, ynghyd a'r fath brif bynciau eraill, *i'w cael yn un man yn yr Ysgrythyr*, mewn crybwylliad eglur llythyrenol, (*by express literal mention*)."

Y mae Martin Luther, Trindodwr, yn dywedyd, "Nid yw'r gair Trindod i'w gael yn un man yn yr ysgrifeniadau dwyfol, gair o ddyfais dynol ydyw, ac am hyny y mae yn swnio yn oerllyd; llawer gwell fyddai dywedyd Duw na Thrindod.

Dywed John Calvin, Trindodwr, "Yr wyf yn cashau'r weddi wael hon, 'Drindod Sanctaidd, Un Duw, cymmer drugaredd arnom,' fel un ag sydd yn sawri o farbariaeth. Yr ydym yn gwrthod y fath ymadroddion fel rhai sydd nid yn unig yn ddiflas ond hefyd yn halogedig.

Y mae *egwyddorion sylfaenol* y grefydd Gristnogol wedi eu gwneuthur i gyd yn eglur yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, mewn amrywiol fannau, ac wedi eu gosod allan mewn geiriau nad oes eisiau eu cyfnewid.

Dywed Dr. Dwight, Trindodwr, fel hyn, "Iaith synwyr cyffredin yw iaith yr Ysgrythyr; iaith eglur ac amlwg nattur." Paham y mae'r eglwysi yn ymado ag iaith yr Ysgrythyr ynte?

Y mae Robert Hall, Trindodwr, yn dywedyd, "Nid yw yn beth anhawdd barnu am yr hyn sydd yn angenrheidiol i iechydwriaeth. Y mae tawelwch y gydwybod yn gofyn fod yr hyspysrwydd yn gywir ac yn eglur ar y pwnge

hwn." Nad oes dadguddiad cywir ac eglur o athrawiaeth y Drindod, y mae ei phleidwyr yn cydnabod.

Dywedyd fod y Tad yn Dduw Hollalluog, y Mab yn Dduw Hollalluog, a'r Yspryd Glan yn Dduw Hollalluog, a bod i ni ddeall hyn am *bob un* ar wahan, a dywedyd wedi'n "nad ydynt dri Hollalluogion, ond un Hollalluog," onid ydyw yn wrth-ddywediad perffaith yn y gosodiad ei hunan?

Dywed Archesgob Tillotson, Trindodwr, "Nid yw Duw byth yn cynnyg dim i grediniaeth dyn ag sydd yn eglur yn gwrth-ddywedyd golygiadau naturiol ac hanfodol ei feddwl, oblegid byddai hyny yr un peth ag i Dduw ä ddystrywio ei waith ei hunan.

Dywed Dr. South, Trindodwr, "Ei bod yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn beth mor rhyfedd ac annirnadwy, y gallai yr un bod fod yn Dad ac hefyd yn Fab i'r un person, dwyn ei hunan i fodoliaeth—bod yn achos ac yn effaith hefyd—fel, oni bai ei fod yn cael ei *addoli* fel dirgelwch, cawsai ei *wrthod* fel gwrth-ddywediad."

"Y mae'r ymadrodd '*Tragywyddol Fab*' medd Dr. A. Clarke, Trindodwr, yn hunan-wrthddywediad pendant. 'Nid oes dim *dechreuad* i *dragywyddoldeb;* nid yw'n sefyll mewn un perthynas i *amser*. Y mae *Mab* yn cyfeirio at *amser*, at *genhedliad*, ac at *Dad*, ac at amser cyn y cenhedliad yma."

Nid yw'r holl esponiadau ar y Drindod ag sydd yn cael eu harfer i'w hamddiffyn a'i hegluro ond undeb o bethau meidrol yr hyn sydd bosibl, ac felly nid ydynt yn dwyn un cyffelybrwydd i undeb tybiedig y tri Bod Hollalluog, Anfeidrol, a Chyd-dragywyddol, yr hyn sydd yn anmhosibl.

Dywedodd Dr. Hey, Trindodwr, ar y pwngc o Drindod, "Y mae fy nealldwriaeth wedi ei faglu mewn dyryswch, y mae fy amgyffred yn orchuddiedig mewn tywyllwch dudew. Yr wyf yn cyffesu ac yn cyhoeddi fy nyryswch yn y modd mwyaf diduedd."

"Nis gall yr athrawiaeth na allo sefyll ymchwiliad rhesymol," meddai Dr. Adam Clarke, "ddim bod yn wir. Yr ydym wedi myned yn rhy bell wrth ddywedyd na ddylid dwyn yr athrawiaethau hyn neu yr athrawiaethau accw dan olrheiniad rhesymol; gan eu bod yn athrawiaethau dadguddiad pur."

Y mae Archesgob Secker yn dywedyd, "Yn wir, doder unrhyw osodiad *(proposition)* o'n blaen fel wedi deilliaw oddiwrth Dduw, neu oddiwrth ddyn, nis gallwn ei gredu ond mor belled ag yr ydym yn ei ddeall: ac am hyny, os na allwn ddeall dim o hono, nis gallwn gredu dim o hono."

Y mae rhai o'r Trindodiaid mwyaf enwog a dysgedig wedi cydnabod "Nad yw'r Drindod ddim i'w chael yn nysgiad eglur yr Ysgrythyr." "Ei bod yn gwrth-ddywedyd ein rheswm." "Ac nas gellir ei hamlygu i ni oddiwrth egwyddorion natur." Nid yw'r Ysgrythyr, na Rheswm, na Natur, yn llefaru am dani.

Bu'r genedl Iuddewig am lawer o oesoedd yn ystorfa'r dadguddiad dwyfol; yn cael eu ffafrio â dysgawdwyr ysprydoledig, y rhai a lefarent am Dduw, am ei addoliad, ac am ei orchymynion, ac etto *ni* chredodd yr Iuddewon erioed mewn Trindod yn *un cyfnod* o'u hanes.

Yr oeddent yn gosod y pwys mwyaf bob amser ar y gorchymyn hwn, "Yr Arglwydd ein Duw sydd un." Yr oedd hwn yn un o'r brawddegau ag oedd yn ysgrifenedig ar eu phylacterau, ac yr oedd yn cael ei adrodd ganddynt hwyr a boreu yn eu gweddiau.

Yr oedd yr Iuddewon o'r un golygiadau ar *Undod Duw*, yn amser Crist a chyn ei amser ef, ac y maent o'r un golygiadau etto. Ni cheryddodd yr

Iesu *ddim* o honynt erioed, ond yn hytrach cadarnhawyd hwynt yn y gred hon.

Nis gall un hanesydd, o un cymeriad, nac Iuddew na Christion, nodi un amser nac unrhyw ddylanwadau a gyfnewidiodd y ffydd Iuddewig o'r gred Drindodaidd i'r gred Undodaidd yn Nuw.

Y mae Esgob Beveridge, Trindodwr, yn dywedyd, "Y mae'r Iuddewon wedi cael y gyfraith dros 3000 o flyneddau, a'r prophwydi dros 2000, etto *nid ydynt erioed* hyd y dydd presennol wedi bod yn alluog i wneuthur y Drindod yn erthyg eu ffydd."

Dywed Esgob Bloomfield, Trindodwr, mewn perthynas i'r rhai sydd yn credu fod yr Iuddewon wedi bod rhyw bryd yn credu Trindod, "Yr wyf fi yn cyffesu nad wyf fi ddim yn barod i fyned i eithafoedd pellaf y gosodiadau yma, yr wyf yn credu ei fod yn beth eithaf tebygol fod yr Iuddewon yn disgwyl *Messiah* a fyddai yn gyd-gyfranogydd o'r natur ddwyfol, ond *nid* un a fuasai yn ogyfuwch a Duw."

"Y gred gyffredinol," meddai Dr. Campbell, Trindodwr, "ymhlith yr Iuddewon oedd, y buasai'r Messia yn llawer mwy dyn na Dafydd, ac hyd yn oed yn frenin cyffredinol, yn benadur brenhinoedd y ddaear, yr hwn oedd i orchfygu yr holl deyrnasoedd, a'u gwneuthur yn ddeiliaid i'r bobl ddewisedig: etto yr oeddent yn tybied mai dyn yn unig oedd efe i fod."

Dywed Dr. Burton, Trindodwr, am y rhai sydd yn dal fod yr Iuddewon wedi bod yn credu mewn Trindod, "Ei fod yn edrych arno fel peth anffortunus iawn, eu bod wedi difynu ffug-ysgrifeniadau traddodiadol *(cabalistic forgeries)* er cynnal y gosodiad yma."

"Yn wir," meddai Archesgob Lawrence, "os oes rhyw nerth yn y rheswm (dros fod yr Iuddewon yn credu yn y Drindod) y mae yn debyg o brofi mwy nag y mae ei phleidwyr yn ddewis; oblegid â yn y blaen i brofi fod yr Iuddewon yn credu fod *deg* ac nid *tri* deilliad personol oddiwrth y Duwdod."

Y mae'r Iuddewon yn ddiamheuol yn Undodiaid yn eu cred yn Nuw *yn awr*, a dywed pob difinydd galluog a theg, a phob hanesydd Eglwysig, eu bod wedi bod felly *erioed*. Yr *oeddent* felly yn nyddiau Crist; *ni* cherydd-odd Crist hwynt *erioed*, ond cadarnhaodd hwynt yn y gred hon."

Nid yw'r Iuddewon wedi cyhuddo Crist na'i Ayostolion o ddysgu un athrawiaeth yn groes i'r Eglwys Iuddewig ar Undod Duw. Yr oedd y Cristnogion boreuol a'r Iuddewon o'r un farn ar y pwngc hwn, fel ag y mae'r Iuddewon a'r Undodiaid yn y dyddiau presennol.

Nid oes un ysgrifenydd Iuddewig, yn y ganrif gyntaf na'r ail, yn cyhuddo yr Eglwys Iuddewig o gredu yn y Drindod. Ond oddiar y bedwaredd ganrif hyd yn awr y mae'r Iuddewon beunydd yn dwyn y cyhuddiad yn erbyn y Cristnogion eu bod yn credu mewn rhagor nag un Duw.

(I'w barhau.)

Nid yw bara yn fwy angenrheidiol er cynnaliaeth y bywyd dynol, nag yw crefydd er dedwyddwch y creadur o ddyn.

Y mae ar yr anghenog eisiau *rhai* pethau, y mae ar y glwth eisiau *llawer* o bethau, ond y mae ar y trachwantus eisiau *pob* peth.

Pan byddo ein pechodau yn ein gadael ni, yr ydym yn gwenieithio i'n hunain ein bod ni yn eu gadael hwynt.

SYLWADAU AR IOAN I., 1—14.

Mae rhagymadrodd *(Proem)* Efengyl Ioan (1—14) gwedi peri llawer o lafur ac anhawsderau i esponwyr y Testament Newydd ym mhob oes o'r byd Cristionogol. Y prif anhawsdra yma yw deall yr hyn a feddylia Ioan wrth *Logos*—"y Gair," gan y cyfaddefir yn gyffredin ei fod yn arfer y gair mewn ystyr neillduol a gwahanol i'r lleill o ysgrifenwyr y Testament Newydd. Mae efe yn arfer y gair hefyd megis pe bae yn hollol adnabyddus, ac yn cael ei arfer yn gyffredin, yn yr amser yr ysgrifenodd ei efengyl. *Pwy amser* oedd hyn? ac ym *mha le* yr ysgrifenwyd ei Efengyl? Yr hanes mwyaf credadwy yw (gwel Alford's Prolegomena to the Gospel of John) i Ioan, ar ol ysgariad a marwolaeth y lleill o'r Apostolion, fyned i Ephesus, a gofalu am yr eglwysi yn Asia Leiaf, hyd ei farwolaeth, yn agos i ddiwedd y ganrif gyntaf. Cyttuna pob hanes iddo farw yn hen iawn, ac yn Ephesus. Fe fernir oddiwrth gynwysiad Efengyl ac Epistolau Ioan, yn gystal ag oddiwrth yr hyn a wyddir am ei hanes, iddynt gael eu hysgrifenu o'r fl. 60 i'r 70, neu efallai yn ddiweddarach. Erbyn hyn yr oedd llawer o gyfeiliornadau gwedi ymlusgo i'r eglwys, ac ymhlith y cyfryw yr *heresi Gnosticaidd* oedd y mwyaf nerthol a gelyniaethol i'r grefydd Gristnogol. Mae'r gair *gnostic* yn arwyddocau gwybodaeth neu ddoethineb; ac yr oedd y rhai ag oeddent yn perthyn i'r sect hon yn ymffrostio yn fawr yn eu doethineb, ond "gwagddoethineb" oedd y cwbl oedd ganddynt. At y cyfryw mae Paul yn cyfeirio, Rhuf. i. 22, "Pan dybient eu bod yn ddoethion hwy a aethant yn ffyliaid." Un o brif bynciau y sect hon ydoedd, Mai nid Duw oedd Creawdwr y byd; cithr mai Æons, bodau, neu is-dduwiau, creuedig gan y Duw Mawr, ac yn cyd-fodoli ag ef cyn bod amser mewn goleuni a dedwyddwch perffaith, —mai un o'r rhai hyn a greodd y byd, &c. Yr oedd y sect hon yn flodeuog iawn yn Alexandria, yn yr Aipht, ac yn Eyhesus, yn amser diweddaraf Ioan. Haerent mai dylifiadau *(emanations)* oddiwrth Dduw oedd yr is-dduwiau yma, ac yr oeddynt yn priodoli iddynt wahanol enwau. Yr oeddynt yn galw yr Æon a greodd y byd yn Logos, "y Gair"; arall yn "Oleuni"; arall yn "Fywyd", &c.

Tebygir mai un Simon Magus oedd y cyntaf i ymdrechu cyssoni Cristnogrwydd â'r heresi hon, trwy ddychymmyg rhyw gyffelybrwydd rhwng y Logos, y "Gair", neu'r is-dduw, a greodd y byd, yn system y Gnostics, â Iesu Grist, Mab Duw, yn y grefydd Gristnogol.

Yng ngwyneb yr amgylchiadau a nodwyd gellir gweled, tybiaf, yn bur eglur, amcan Ioan wrth ysgrifenu y rhagymadrodd hwn—mai ei amcan ydoedd, i wrthwynebu yn bendant ac i wrthbrofi yr athrawiaeth ag oedd yn priodoli creadigaeth pob peth i is-dduw—i un o'r Æons, neu fodau ffugiol y Gnostics; ac i ddysgu nad oes ond *un Duw*, ac mai y Duw hwnw a greodd y cwbl oll. Yr hacriad penderfynol a geir yma ydyw, mai'r un peth yw'r Logos, neu'r Gair, (doethineb), a Duw ei hun, ac nid bôd is-raddol—gwahanol, creuedig—fel y dysgai'r Gnostics fod y Logos—y Gair. Yr un peth yw "gair" (doethineb) Duw a Duw ei hun. Ps. xxxiii. 6—"Trwy *air* yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd," &c.

Esponiad yr Adnodau 1—14.

1. "Yn y dechreuad (dechreuad y byd) yr oedd y gair (doethineb), a'r gair (doethineb) oedd gyda Duw, a Duw (nid rhyw is-dduw) oedd y gair."

Duw a'i ddoethineb yr *un*. Geiriau o'r un fath yn yr Hen Destament: Diar. viii. 22. Doethineb yn llefaru—"Yr Arglwydd a'm meddiannodd i yn nechreuad ei ffordd, cyn ei weithredoedd erioed. Er tragywyddoldeb y'm heneiniwyd, er dechreuad cyn bod y ddaear:" 30—"Yna yr oeddwn i gydag ef," (a'r gair oedd gyda Duw). Pwy all ammeu i fod y geiriau yma ym meddwl Ioan ar y pryd?

Mae o bwys hefyd i gofio fod Ioan yn arfer y gair *Logos*, yr un gair ag a ddefnyddiai y Gnostics, pan y mae Philo yn arfer y gair *Sophia* i arwyddo'r un peth—*doethineb*.

2. "Hwn (doethineb) oedd yn y dechreuad gyda Duw." Diar. viii. 30—"Yna yr oeddwn i (doethineb) gydag ef."

3. "Trwyddo ef (doethineb) y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd." Ps. xxxiii. 6—"Trwy air yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd, a'u holl luoedd hwy trwy yspryd ei enau." Nid trwy is-dduw y Gnostics.

4. "Ynddo ef (sef y gair—doethineb) yr oedd Bywyd, a'r Bywyd oedd oleuni dynion." Diar. viii. 35—"Canys y neb a'm caffo i (doethineb) a gaiff Fywyd."

5. "A'r goleuni sydd yn llewyrchu yn y tywyllwch; a'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred."

Mae'r doethineb yma—y goleuni—yn amlwg trwy holl weithredoedd Duw, ond nid oes neb braidd yn sylwi arno. Diar. viii. 1—"Onid yw doethineb yn gwaeddi," &c.

O'r 6fed adnod i'r 14eg nid oes un anhawsdra.

14. "A'r gair (doethineb) a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni," &c. A'r Gair neu'r Doethineb hyn a ddaeth mewn dyn, neu yng ngeiriau Paul, 1 Tim. iii. 16, "Duw a ymddangosodd yn y cnawd"—ddatguddiodd ei hun trwy'r dyn Crist Iesu. Y doethineb a greodd y byd—y doethineb a ddatguddir yng ngweithredoedd Duw—y doethineb a amlygir trwy'r tadau a'r prophwydi—y doethineb hwnw yn awr, yn yr amser diweddaf, sydd gwedi egluro ei hun, mewn modd neillduol trwy ein Harglwydd Iesu Grist.

D. Ll.

Coleg, Caerfyrddin.

(I'w barhau.)

Y dyn gwir grefyddol yw efe, ac efe yn unig, yr hwn sydd yn ymdrechu cyrhaedd y priodoleddau moesol y mae yn briodoli i wrthddrych ei addoliad; yr hwn sydd yn ymdebygoli i'r character y mae yn garu; yr hwn sydd yn ymarfer yr uniondeb y mae yn addoli; yr hwn sydd yn llefaru y gwirioncdd y mae yn anrhydeddu; yr hwn sydd yn defnyddio y caredigrwydd y mae yn ganmol.—Fawcett.

Yr ydwyf yn aml wedi meddwl ynof fy hun, Ni phechaf ond yr un pechod hwn yn ychwaneg, ac yna edifarhaf am hwn ac am fy holl bechodau eraill gyda'u gilydd. Mor ffol oeddwn ac mor anwybodus! fel pe buaswn yn fwy galluog i dalu fy nyledion po mwyaf y byddont; neu fel pe buaswn yn dywedyd, clwyfaf fy nghyfaill unwaith etto, ac yna siglaf law ag ef yn gariadus. Ond beth os gwrthyd fy nghyfaill siglo llaw â mi? Ac etto, a all dyn gyflawni un pechod yn ychwaneg a dim ond un?—Fuller.

NODAU GWIRIONEDD A GWIR GREFYDD.

RHIF II.

" Duw, dod immi nerth i ganfod
Nodau dy wirionedd di;
Boed, yn arwain fy nghydwybod,
Oll yn oll i'm ymgais i."

IOLO.

GWIRIONEDD—gwirionedd crefyddol yw'r peth yr ydym yn ymofyn am dano, a'r nodau, os yn wir yr oes nodau, sicr ac anffaeledig, wrth ba rai y gallwn ei adnabod. A phaham lai nad oes nodau sicr ac anffaeledig ar wirionedd crefyddol fel ar wirioneddau eraill? Yr un deall y mae Duw wedi roddi i ni farnu am y naill ag am y llall.

Cyn amser yr athronydd Locke, yr oedd yr athrawiaeth o ddelfrydau cynhenid *(innate ideas)* yn cael ei derbyn yn bur gyffredinol. Yn ol y dyb honno y mae prif wirioneddau crefydd naturiol a gwirioneddau sylfaenol eraill, yn blannedig yn y meddwl dynol; fel nad oes eisieu gofalu am nodau gwirioneddau ag ydynt eisioes wedi eu hargraffu ar feddwl pob dyn megis gan fys y Creawdwr. Ond y gwaethaf am y dyb honno yw, ei bod yn ddisail, ac yn groes hefyd i ffeithiau adnabyddus, fel y dangosodd Locke, yn ddigon eglur yn ol barn ni, yn ei *Essay on the Human Understanding*. Ac y mae sylw a phrofiad ynghyd ag hanes dynoliaeth, yn cadarnhau'r ffaith, nad yw ein gwybodaeth yn beth gwreiddiol a chynhenid, neu'n beth ag sydd yn cael ei eni gyda ni; eithr yn beth ag ydym yn ei gyrhaeddyd trwy sylw a phrofiad ac addysg,—trwy dystiolaeth ein synwyrau, a'r defnyddiad o'n cynheddfau meddyliol a chydmaru pethau a'u gilydd. Medr yr aderyn wneuthur ei nyth heb na phrofiad nac addysg. Mae nythau'r creaduriaid asgellog yn cyfatteb yn rhyfedd i'w hamrywiol anghenion—oll yn gyfleus ac oll yn dlws iawn; ond dim cyfnewid, dim gwelliant trwy yr holl genedlaethau, os oes lle gwella. Canfyddir doethineb y Crëwr Mawr yn hyn. Ond nid fel yma y mae gyda dynoliaeth. Beth wyddai Syr Isaac Newton am gelfyddyd rhif a mesur pan oedd yn faban? Yr oedd ei gynheddfau meddyliol yn wreiddiol; ond nid felly y wybodaeth a gyrhaeddodd. Ffrwyth sylw craffus a diwydrwydd diflino ydoedd honno. Yr un modd y mae gyda'r cyffredinolrwydd o ddynion. Beth wyr darllenwyr yr *Ymofynydd* heblaw yr hyn y maent wedi ei gael trwy sylw a phrofiad ac addysg? Os oes neb o honynt yn gwybod am ryw wirioneddau ag y maent wedi ei gyrhaeddyd trwy ffordd arall—trwy dreiddiad meddwl, yn ddigyfrwng,—*intuitive truths*, fel y geilw rhai o'n brodyr Seisnig hwynt, byddai yn dda genym gael gwybod pa rai ydynt. Yn y cyfamser goddefer i ni fyned yn mlaen â'n ymchwiliad yn yr hen ffordd, sef trwy ymresymu; gan nas gwyddom am un ffordd arall i adnabod nodau'r gwirionedd. Ond pell iawn o gymeryd arnom neu annog un rhith o anffaeledigrwydd, nid y'm yn cynnyg rhagor na gosod ger bron y darllenydd yr hyn sydd yn ymddangos i ni ei fod yn nôd o wirionedd a'r hyn nad ydyw felly. Barned pob un drosto ei hun. Y mae gwir nodau o wirionedd; y mae hefyd nodau twyllodrus. Dechreuwn gyda'r olaf.

Braidd mae eisieu sylwi fod y nifer amlaf yn mhob oes ac yn mhob gwlad, yn barottach i *gymeryd eu harwain* (gyda chrefydd, fel mewn pethau eraill,) nag i chwilio yn ddiduedd ac i farnu drostynt eu hunain. Nid yw disgyblion y

torthau, a'r rhai ydynt o gyffelyb amcan, yn haeddu cael eu henwi mewn cyssylltiad â'n testun; maent hwy "yn derbyn eu gwobr," ac weithiau yn cael eu siomi. Am y lluaws o ddynion difrifol yr ydym yn llefaru, y rhai a dybiant eu bod yn canfod nôd o wirionedd ar yr hyn y maent yn ei gofleidio. Barnwn fod nodau twyllodrus yn eu cam-arwain. Awn ymlaen i enwi rhai o honynt.

Yn gyntaf, sylwn nad yw *hynafiaeth* unrhyw athrawiaeth yn nôd o'i gwirionedd. Dywedodd rhyw un fod cyfeiliornad yn hen; ac am hyny fod gwirionedd yn ymddangos yn newydd, os nid yn ddieithr. Ac felly y mae. Y grefydd hynaf yn ein gwlad ni yw Derwyddiaeth; os gwyr neb beth oedd Derwyddiaeth. Serch yr adgyfodiad o honi (os adgyfodiad hefyd) gan Myfyr Morganwg, barnwn y bydd i'r darllenydd weled ei bod yn ddigon i ni sylwi, nad oedd honno ond un, fe allai y gorau, o'r cyfundraethau paganaidd. Mae hanes pregethiad cyntaf yr Efengyl yn Mhrydain Fawr mewn tywyllwch anobeithiol. Sicr na ddaeth Pabyddiaeth yma cyn dyfod o'r Saeson i'n gwlad. Nid oedd Morgan Pelagius yn Babydd. Mae'r Pabyddion, fel Eglwys Loegr, yn condemnio ei athrawiaeth. Ond ymddengys ei fod yn ei ddydd y mwyaf poblogaidd yn Nghymru. Ac os gellir rhoddi coel i'r hen hanes am Gymanfa Llanddewi Brefi, yn nghylch heresi Morgan, ymddengys fod cymaint o bleidwyr y pryd hyny ag sydd yn awr ar lan Teifi, dros allu dyn i wneuthur ewyllys Duw. Pa fodd bynag, Pabyddiaeth, yn ol yr hanes sydd wedi dyfod i lawr i ni trwy'r canol oesoedd, oedd yr unig ffurf o Gristnogrwydd yn ein gwlad hyd amser Harri'r 8fed. Braidd y credwn y bydd i neb o'n darllenwyr feddwl fod cymaint a hyn o hynafiaeth, yn un nôd o wirionedd y grefydd Babaidd.

Y mae llai o achos etto gan Eglwys Loegr i ymffrostio yn ei hynafiaeth. Ac nid yw athrawiaeth y Drindod, fel rhan o'r hyn a elwir y Ffydd Gatholig, ddim yn henach na'r 4edd ganrif. Darfu'r dirywiad mawr ar grefydd gymerodd le cyn a chwedi'r cyfnod hwnw, wneud y fath ysgariad rhwng yr Eglwys broffesedig âg eglwys y Testament Newydd, fel ag i'n gorfodi, ar dir Protestanaidd, i adael o'r naill du traddodiadau'r canol oesoedd ac i gymeryd yr Ysgrythyr fel ein hunig arweinydd at Grist a'r iechydwriaeth sydd trwyddo ef. A dyma'r unig dir rhesymol a diogel i ni sefyll arno. Un yw ein Hathraw mawr; ninau brodyr ydym. Gwerthfawrogwn yr Ysgrythyrau Cristnogol, ac iawn ddefnyddiwn hwynt, fel y moddion grasol a drosglwyddwyd i ni trwy ragluniaeth Duw, er ein dwyn o fewn cyrhaedd i'r iechydwriaeth ag y mae'n gynnyg i ni, ac i bawb o'r byd.

Yn nesaf sylwn nad ydyw *awdurdod Brenin*, neu Frenhines, neu *lywodraeth wladol*, yn un prawf neu nod o wirionedd unrhyw athrawiaeth. Pe felly, buasai yr un gyfundraeth grefyddol mewn awdurdod yn mhob gwlad ac yn mhob oes. Nid felly y mae wedi bod nac yn bod. Diau fod crefydd a fyddo dan nawdd llywodraeth wladol yn abl ennill llawer math o ddynion i'w phleidio. Bydd dynion esmwyth, difeddwl yn barod i ymuno â'r gyfundraeth sefydledig, oni bydd y lluaws, neu achosion personol neu deuluaidd, yn eu lluddias. Ac yn wir onid ellir dangos fod ymneillduaeth yn llawer rhagorach na chydymffurfiad, nis gellir ei chyfiawnhau. Mae manteision, ar lawer ystyr, mewn cyssylltiad â threfn o addysg ac addoliad crefyddol a fyddo dan lywyddiad llywodraethwyr doeth a deallus. Ac heblaw'r balch a'r uchelgeisiol, y rhai fyddant bob amser yn chwannog i ymgyssylltu â'r grefydd fyddo dan nawdd cyfoeth a phendefigaeth y wlad, y mae lle i ddisgwyl y bydd llawer o ddyn-

ion cywir eu hamcanion, ond heb erioed gael eu dihuno i chwilio a barnu drostynt eu hunain, yn naturiol barod i dybied mai crefydd y llywodraeth ar y cyfan yw y mwyaf diogel a'r mwyaf manteisiol. Ond er hyn oll y mae yn ffaith anwadadwy fod y crefyddau sefydledig, a fu ac y sydd, yn groes i'w gilydd; ac am hyny nis gallant oll fod yn wir. Pa haeriad allai fod yn fwy gwrthun na dywedyd mai paganiaeth sydd wirionedd mewn gwledydd paganaidd; mai Mahometaniaeth sydd wir yn Nhwrci a Phersia; Pabyddiaeth yn Spain ac Itali; a bod croes-ddaliadau yr amrywiol sefydliadau Protestanaidd yr un cyn wired a'r llall? Un yw'r gwirionedd, a digyfnewid. Ac y mae yn sicr ddigon nad yw awdurdod Brenin neu wladwriaeth yn un prawf neu nod o wirionedd unrhyw athrawiaeth. Y mae'n dda fod genym nodau ar wirionedd Duw ag sydd yn fwy sylweddol a safadwy na llywodraethau cyfnewidiol y byd hwn.

Peth arall ag sydd yn cael ei gymeryd gan lawer fel prawf neu nod o wirionedd unrhyw athrawiaeth ydyw, ei bod yn cael ei chymeradwyo a'i dysgu yn mhrif eistedd-leoedd dysgeidiaeth. Y gofyniad yn Judea am ddysgeidiaeth Crist ydoedd, "A gredodd neb o'r penaethiaid ynddo, neu o'r Phariseaid"? Penaethiaid y Sanhedrim, o bosibl, y meddylid; ac yr oedd y Phariseaid yn cael eu hystyried y mwyaf crefyddol a'r mwyaf dysgedig o'r genedl. Y mae gwir ddysgeidiaeth bob amser yn teilyngu parch ac ystyriaeth. Ond nid yw dysgedigion yn anffaeledig. A phan y gofynir, At bwy yr awn am addysg a chyfarwyddyd mewn pethau crefydd a dysgeidiaeth Gristnogol, ond at y rhai sydd wedi cael mwyaf o fanteision dysgeidiaeth—y rhai ydynt yn hyddysg yn ieithoedd y Beibl ac yn hanesiaeth ac arferion oes Crist a'r Apostolion? Neu os gofynir, ar gynnygiad rhyw athrawiaeth newydd, Beth ddywed awdurdodau dysgedig Rhydychen a Chaergrawnt ar y pwnc? Mae'r atteb yn barod: a hyny ydyw, yn fyr, nad yw yr athrofaoedd pennaf a'r dysgedigaf yn y byd yn meddu ar awdurdod na chymhwysder i benderfynu dros eraill beth raid fod erthyglau eu ffydd. Diau fod tystiolaeth dynion deallus a diduedd, ynghylch ffeithiau ag sydd yn adnabyddus iddynt, yn haeddu derbyniad ystyriol. Bydd pob gwir ymofynydd yn barod i dderbyn addysg o ba le bynag y mae gwir addysg i'w gael; ac wrth gwrs i roddi gwrandawiad i athrawon pwyllog dysgedig, ac i gymeryd y golygiadau a gynnygiont ar bynciau pwysig crefydd dan ystyriaeth ddyledus; ond nid heb bwyso y rhesymau a ddygant dros y cyfryw olygiadau, gyda golwg i ffurfio barn gydwybodol. Priod swydd athrawon dysgedig ydyw, i oleuo deall dynion ac i'w cynhorthwyo i farnu drostynt eu hunain. A ydyw athrawon ein prif athrofaoedd mewn amgylchiadau ag sydd yn ffafriol neu fanteisiol er eu hannog a'u galluogi i wneuthur hyn o waith? Y mae yn ddigon adnabyddus nad ydynt. Y mae rhagfarn a bydoldeb ac ymlyniad wrth hen sefydliadau yn etifeddiaethol iddynt. Rhaid bod eu tanscrifiad (*subscription*) i'r Erthyglau yn effeithio fel pwys o blwm ar eu cydwybodau, ac fel llyffetheiriau ar bob cynnyg at rydd-ymofyniad. Ac heblaw hyn nid ydynt yn cyttuno â'u gilydd. Bydd y rhai hyny yn eu plith a fyddont yn beiddio chwilio drostynt eu hunain, a chyhoeddi ffrwyth eu hymchwiliadau yn rhydd ac yn onest, yn sicr o ddyfod dan gondemniad, a chael eu niweidio yn eu hamgylchiadau. Mae'r athraw dysgedig, y Doctor Rowland Williams o Lanbedr, ac eraill a ellid eu henwi, wedi cael profiad poenus o hyn. Mewn gwirionedd, y mae'r dysgedigion sydd yn yr Eglwys Sefydledig ac yn y prif athrofaoedd mewn sefyllfa llawer mwy an-

fanteisiol er meithrin a chynnal ymchwiliad trwyadl a diduedd, a phroffesiad gonest o'u hargyhoeddiadau crefyddol, nag yw y rhai a wrteithiant ddysgeidiaeth ymhlith yr Ymneillduwyr diystyredig. Ac am unrhyw fantais dybiedig yn deilliaw oddiwrth eu proffes o gydymffurfiad â'r un erthyglau ffydd a disgyblaeth, gallant fod yn ddistaw, yr hyn lleiaf, hyd nes delo'r *High Church*, a'r *Low Church*, a'r *Broad Church*, i gyduno â'u gilydd. Y mae'r pleidiau yma yn Eglwys y llywodraeth mor anghyttunol â'u gilydd ag sydd yn ddichonadwy braidd, mewn dynion ag ydynt yn ymborthi ar yr un bwrdd degymol, ac yn disgwyl am eu derchafiad wrth yr un bendefigaeth ddaearol.

Y maent yn wir yn cyduno i ddal i fynu athrawiaeth y Drindod a Chredo Athanasius. Ac na thybier oddiwrth y titl Lladin a roddir i'r Gredo honno yn y Llyfr Gweddi Gyffredin—*Quicumque vult*, neu *Pwy bynag a fyno*—y gall pwy bynag a fynno dderbyn neu wrthod y Gredo honno, ac etto fod yn Eglwysydd. O na. Eithr y mae y Gredo yn dywedyd yn bendant, "Pwy bynnag a fyno fod yn gadwedig; o flaen dim rhaid iddo gynnal y Ffydd Gatholig; yr hon Ffydd onis ceidw pob dyn yn gyfan a dihalog, diammeu y collir ef yn dragywydd. A'r Ffydd Gatholig yw hon: Bod i ni addoli un Duw yn Drindod a'r Drindod yn Undod," &c. Dyma gryn *ddamper*, onide, ar chwilgarwch yr ymofynydd Eglwysig? Os ydoedd o'r blaen yn meddwl ei fod fel Protestant i gymeryd y Bibl yn rheol ffydd, ac i farnu drosto ei hun, am yr athrawiaeth a ddysgir yno, dyma fe 'n awr yn cael ei daro yn ei ben gan hen Gredo Babaidd!

Ni fyddai o un pwrpas iddo appelio at Grist, yr hwn a ddywedodd, "Y gwir addolwyr a addolant y Tad." "A phan weddioch, dywedwch, Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,——eiddot ti yw'r deyrnas, a'r nerth a'r gogoniant yn oes oesoedd." Y mae'r Gredo yn bendant yn ei erbyn. Ar ei gychwyniad cyntaf, dan berygl "colledigaeth dragywyddol," rhaid i'r disgybl lyncu pilsen metaphysicaidd ag sy'n cynnwys cymaint o groes-ddywediad a gwrthuni, ag a ellir ei osod allan mewn cynifer o eiriau: "rhaid iddo, o flaen dim gredu fod y Tad yn Dduw, y Mab yn Dduw, a'r Ysbryd Glan yn Dduw; etto nad ydynt dri Duwiau, ond un Duw!" Gofynwn yn brysur, A oes gan y rhai a gynhaliant y Gredo hon un hawl, fel y cyfryw, na chymhwysder ychwaith i fod yn arweinwyr i'r bobl yn eu hymchwiliadau crefyddol? Beth a dybid am ysgolfeistr a broffesai ddysgu rhifyddeg, ond a fyddai yn gofyn gan ei ysgoleigion, o flaen dim, i gredu fod un, ac un, ac un, yn gwneud i fynu nid tri, ond un? B'le mae'r bachgen a feddai ar ddigon o wrolder i wynebu ar y *Multiplication Table* dan yr athraw hwnw? Ni fyddai fawr golwg y deuai i weled ei ffordd yn glir gyda'r *cyphero*, heb iddo ymwrthod yn llwyr â'r dyryswch sylfaenol a gymhellid arno i'w gredu o flaen dim.

Nid yn gellweirus yr y'm yn llefaru, eithr mewn gwir alar am fod y rhai y gellid disgwyl cymaint yn well oddiwrthynt, yn cyfranu cyn lleied o help, neu yn hytrach yn peri cymaint o rwystr i ymchwiliad prysur am wirionedd crefyddol. Dichon y bydd y darllenydd i dybied ein bod wedi dal yn rhy hir ar y pen hwn. Ofnwn ein hunain ein bod wedi bod yn rhy faith; ac am hyny prysurwn at y gorpheniad, am y tro hwn. Ond hyderwn nas gwelir y sylwadau uchod yn gwbl ddiraid gan y rhai ydynt fel ninau wedi clywed Eglwyswyr yn dywedyd yn ddiystyrllyd, "Beth, a ydych mor wan a thybied fod y pregethwyr bach a'u sort yn gwybod dysgu crefydd gystal a'r rhai

sydd wedi eu cwnni yn Rhydychen?" Rhaid addef fod y rhai ydynt ddysgawdwyr ymhlith yr Ymneillduwyr, yn llafurio dan lawer o anfanteision gyda golwg ar addysg trwyadl. Y mae eisiau rhagor o ddysg ar nifer mawr o'n gweinidogion. Hyderwn fod cryn ymestyniad tuag at gyrhaeddyd hyny. Pa fodd bynag, tra mae'r Eglwyswyr yn eu cau allan o'r athrofâu cenhedlaethol, anweddus dros ben ydyw dannod iddynt yr anghyfleusderau y maent danynt o'r herwydd. Ac hefyd gellid enwi Ymneillduwyr llafurus a dysgedig y rhai ni fuont yn ol i'r penaf o esponwyr ac amddiffynwyr Cristnogrwydd. Taler parch i'r rhai y mae parch yn ddyledus. I esgobion yr ydym yn ddyledus am gyfieithiad o'r Bibl i iaith ein gwlad. Cyfreithiwr mae'n debyg oedd Gwilym Salsbri, yr hwn gyhoeddodd y Testament Newydd gyntaf yn Gymraeg. Nid oes neb yn meddwl serch hyny mai cyfreithwyr yw y mwyaf cymmwys i ddysgu crefydd i'r bobl. Yr hyn lleiaf, hyderwn ein bod wedi dangos Nad ydyw yn un prawf neu nod o wirionedd unrhyw athrawiaeth grefyddol, ei bod yn cael ei chymeradwyo a'i dysgu yn mhrif eisteddleoedd dysgeidiaeth ein gwlad.

CREDU PETH SYDD UWCHLAW EIN DEALLTWRIAETH.

Mr. Ymofynydd,—Fe ddywedir yn aml fod Undodiaid yn gwadu pob peth sydd uwchlaw eu dealltwriaeth; yr wyf o'r farn y bydd y dyfyniadau canlynol o weithiau rhai o enwogion yr Undodiaid yn ddigonol i ddangos mai nid gwir yw hyny.

Siencyn.

Y mae llawer o wirioneddau y mae Rhagluniaeth yn dymuno cadw oddiwrth ein amgyffred; ac yng nghyflwr terfynol presennol ein cynneddfau, y mae yn debygol iawn y byddai gwybodaeth o honynt yn niweidiol i ni.—Estlin.

Fe all pethau sydd uwchlaw ein rheswm, er dim a wyddom ni i'r gwrthwyneb, fod yn wirionedd; ond nis gall pethau sydd yn eglur groes i reswm, fel fod *tri* yn *un*, ac *un* yn *dri*, fyth ymddangos i ni felly.—Priestley.

Addefaf yn rhwydd fod yn rhaid i mi wrthod pob peth sydd yn dyfod fel yn anghyson ac yn *groes* i'm rheswm; oblegid hwn yw'r unig oleuni a chyfarwyddyd y mae fy Ngwneuthurwr wedi ei roddi i mi trwy yr hwn y mae i mi farnu unrhyw beth, hyd yn oed ei gymmeriad a'i berffeithderau ef ei hun, a chrededd (*credibility*) unrhyw ddadguddiad pellach y dichon efe wneuthur o'i eiddo na'r hyn y mae goleuni natur yn ei roddi; ac yr ydwyf o'r farn nas gall efe geisio genyf i gredu un peth ag sydd yn brawychu neu yn myned yn groes i'r dealltwriaeth naturiol y mae efe wedi ei roddi i mi, oblegid buasai wrth hyny yn fy ngosod dan rwymedigaethau gwahanol ac amhosibl ar yr un pryd. Ond nid oes un Undodwr ag ydwyf fi yn adnabod neu wedi ddarllen am dano erioed wedi gwrthod un rhan o Ddadguddiad Dwyfol o herwydd ei fod *uwchlaw ei amgyffred*. Bydded i mi gael gwybod yn eglur fod Duw wedi rhoddi arwydd o'i feddwl a'i ewyllys, ac yna bydded y testun mor annirnadwy ag y byddo i mi, derbyniaf a chredaf ef; oblegid nis gellir byth roddi gwell rheswm am ddim na bod Duw wedi ei ddywedyd.—Lindsey.

Gohebiaethau.

CYWIR DDARLLENIAD I Tim. iii., 16.

Llythyr V. *Mr. Evans.—Sylwadau ar Lythyr* II. *Mr. Jones yn yr Annibynwr.*

(Parhad.)

Ond bellach at y profion dros mai *'ὸς* oedd darlleniad gwreiddiol y llawysgrif A.

1. Rhoddaf ddyfyniad o Dr. Davidson, a hyny am fod gando *list* o foneddigion i'w gosod gyferbyn a *list* Mr. J. Gall fod llawer un, anghyfarwydd â dadleuon o'r fath, yn gosod cryn bwys ar enwau. "A. Y mae'r ddadl, ebe'r Doctor, yn nghylch darlleniad gwreiddiol y llawysgrif hon yn awr wedi ei phenderfynu. Mater o hanesyddiaeth yw (*it is a matter of history*). Y mae wedi ei sicrhau tuhwnt i ddadl mai OC oedd raid fod ynddi ar y cyntaf. Y darlleniad presennol yn wir yw *Theos*, ond y mae y ddwy linell groes, un yn yr O i'w gwneyd yn Q neu *theta*, y llall uwchben i ddangos nôd y talfyriad, wedi deilliaw o law arall heblaw yr ysgrifenydd dechreuol. Y mae'r llinell uwchben yn dew a thrwsgl mewn cydmariaeth i rai teneuach a thecach a wnaed gan y copïwr; y mae'r peth yr un gyda golwg ar y llinell groes yn yr O. Mae'r ddwy hefyd yn gwahaniaethu yn lliw yr ine oddiwrth ranau eraill y gair. Ond yr oedd Young, Wotton, Mill, Croyk, Berriman, Woide, Grabe, y rhai a welsant y llawysgrif pan nad oedd wedi treulio na diflannu cymaint ag yw yn awr, yn credu mai ei darlleniad gwreiddiol oedd *Theos*. Ar y llaw arall, y mae Wetstein, Hempelius, Porson, Griesbach, Tischendorf, Tregelles, a llawer eraill, y rhai a'i chwiliasant yn fanwl mewn amseroedd diweddar, yn credu mai *'ὸς* oedd ynddi ar y cyntaf. Yr ydym o'r farn mai pa ddwysaf yr edrychir arni â'r llygad noeth ac â gwydrau galluog gan y cyfryw sydd yn gyfarwydd â materion o'r fath, y bydd y casgliad yn ymddangos yn fwy teglur mai ei darlleniad gwirioneddol oedd *'ὸς*." Bib. Crit., p. 829. Felly y mae Dr. Davidson, cystal beirniad a Mr. J., yn ystyried y pwngc wedi ei benderfynu, ac nad yw bellach ond mater o hanesiaeth, —mai *hos* neu *hwn* oedd y darlleniad gwreiddiol.

2. Alford's Gr. Test. proleg., p. 101. "Gallaf grybwyll, fel yn gysylltiedig â'r Epistol cyntaf, fod cyfraniad pwysig wedi ei wneuthur yn ddiweddar at y dodion (*data*) ynghylch y darlleniad hynod yn 1 Tim. iii. 16, gan fy nghyfaill Ellicott, yr hwn trwy edrych yn ofalus i'r Codex Alexandrinus yn y lle hyn sydd wedi profi yn hollol dyb Wetstein (Prol. vol. I. p. 22) fod y *stroke* dybiedig yn O yr OC i'w gwneyd yn Q, yn ddyledus am ei tharddiad i E yr *Eusebeia* pen. vi. 3 *ar yr ochr arall i'r memrwn*, ac i'w gweled yn wanaidd trwyddo. Gwel ei note, Pastoral Epistles, &c., p. 101." Wedi i mi ddarllen y dernyn uchod, anfonais am Ellicott's Pastoral Epistles, ac felly fy nhyst nesaf fydd

3. Ellicott. "Note on 1 Tim. iii. 16. Fe all ffrwyth fy ymchwiliad o'r Codex Alex. gael ei osod allan yn fyr fel hyn. Wrth edrych ar y gair mewn dadl yr oedd yn ymddangos (*a*) linell groes uwch ben, a nôd annghelfydd o fewn, yr O, mewn inc *du*; (*b*) llinell bŵl yn groes i'r O mewn inc o'r *un lliw* a'r llythyrenau cyfagos. Yr oedd yn amlwg nad oedd gan (*a*) un hawl i sylw, oddieithr o bosibl fel adgyffyrddiad trwsgl o (*b*); yr oedd yr olaf yn gofyn chwiliad gofalus. Ar ol edrych arni trwy chwyddwydr cryf yr oedd yn ymddangos yn fwy na thebyg fod tyb Wetstein [proleg., vol. i., p. 22] yn gywir. Mesuriadau gofalus a ddangosasant fod E gyntaf yr *Eusebeia* pen. vi. 3, ar yr ochr arall i'r ddalen, yn gymwys gyferbyn, gan fod rhan gylchawl y ddwy lythyren yn cyd-daro ymron yn hollol, a phen tew pellaf *sagetta* [llinell ganol] yr E y tu ol i'r hyn a ymddangosai yn rhan fratiog o ymyl mewnol llaw chwith yr O. Nid oedd dim yn aros yn awr ond yn unig profi mai yr un oedd y *sagitta* hon a'r llinell dybiedig oedd yn groes i'r C. Cafodd hyn ei wneyd, trwy gynhorthwy caredig Mr. Hamilton o'r British Museum, yn y dull hwn. Tra yr oedd un o honom yn dal y tudalen i fynu i'r goleu, ac yn edrych ar yr O trwy chwyddwydr, dygodd y llall flaen offeryn [heb gyffwrdd y llawysgrif o gwrs] mor agos i ben pellaf *sagitta* yr E fel ag i wneuthur nôd o gysgod [*point of shade*] yn weledig i'r edrychydd yr ochr arall. Pan yr oedd

blaen yr offeryn yn cael ei dynu dros *sagitta* yr E, yr oedd cysgod blaen yr offeryn i'w weled yn dilyn tryfesur [llinell ganol] tybiedig yr O yn gymwys. Ymddengys yn y modd hyn yn sicr nad yw [*b*] yn un rhan o'r O, ac mai darlleniad A yn sicr yw *'ὃs."*—tud. 100 Felly, wele dyb Harper a Woide yn chwilfriw. Ar tud. 49 dywed ymhellach [16 *'ὃs*]. Felly Tischendorf, Lachman, Tregelles, ac yn debygol fwyafrif y beirniaid diweddar. * * * Y mae cyflwr y dystiolaeth yn fyr fel y canlyn. "Os yw darlleniad A* *(Yn ddiddadl:* ar ol ymchwiliad personol manol; gwel *note* p. 100.)" Felly, wele nid yn unig enwau beirniaid diweddar i Mr. J., ond hefyd eu barn a'u profion; sef un o'r un enwad a Mr. J., a dau drindodwr arall. Mor gadarn yw y gwirionedd fel y gall daflu i lawr bymtheg cedyrn Mr. J. â chysgod blaen offeryn.

4. Tystiolaeth J. Scott Porter. "Darfu i Woide wadu nad oedd un llinell wedi ei gosod felly; [h. y. llinell yr E yr ochr arall i'r memrwn]; ond y mae yn awr wedi ei ddodi tuhwnt i ddadl—oblegyd y mae rhyw un wedi gwneyd twll â phin bach ar ddiwedd y llinell groes yr ochr ddeheu i'r O, ac y mae yn dyfod allan yr ochr arall, yn gymwys yn y fath sefyllfa ag i ddwyn oddiamgylch yr effaith a ddesgrifiodd Wetstein. Sylwais ar y twll pin yma, a sefyllfa'r llinellau a sicrheir trwy hyny, pan y chwiliais y llawysgrif Alexandriaidd oddeutu pum mlynedd yn ol, gyda Mr. Ogilby, ysgrifenydd y *Zoological Society*, a dangosais y peth i Sir E. Madden, ceidwad yr ysgrifau yn y Museum, yr hwn oedd bresennol ar y pryd, ond nid oedd wedi sylwi arno o'r blaen. * * * Y mae Porson, [un o awdurdodau Mr. J. ei hun,] yr hwn a dreuliodd ddau ddiwrnod uwchben yr adnod hon, yn haeru yn bendant mai *hos ephanérôthē* tuhwnt i ddadl oedd darlleniad y testun â'r llaw gyntaf—[a manu prima fuisse disserte scriptum, certo pronunciavit]. Tracts and Miscellaneous Criticisms, p. 200. Y mae Tischendorf hefyd, y mwyaf enwog o bawb mewn ymchwiliadau o'r fath, yn rhoddi yr un farn yn y geiriau mwyaf penderfynol—[Proleg. in Cod. Ephr. Syri. Rescr., p. 42, Not. 16]. Gallaf ychwanegu ar ol edrych amrywiol o weithiau ar y lle hwn ar wahanol amserau, a than bob amryw-iaeth goleuni, trwy wydrau cryfion, na ellais ganfod dim tebyg i weddillion hen linellau dan y rhai diweddar, yn nac uwchben y llythyrenau; er trwy gyfodi y ddalen ychydig i fynu o fod yn cyffwrdd â'r un dani, yr oedd llinell ganol yr E yr ochr arall i'w gweled yn amlwg iawn bob ochr i'r spotyn du yn nghanol yr O. Y mae'n amlwg mai OC oedd darlleniad y llyfr pan ddodwyd y llinellau diweddar i mewn. Y mae wedi bod yn wastad ynghadw gyda'r Iawngred (*Orthodox*); ni allasai neb ond person Iawngred gan hyny osod y llinellau presenol i mewn; addefir hyn gan Mill, a sicrheir ef gan Wotton, yr hwn sydd yn cyhuddo Patrick Young fel awdwr y drwg. Ond pwy all gredu y buasai Patrick Young, nac un person Iawngred arall, gymeryd y fath drafferth *i guddio yr hen ysgrifeniad,* yr hwn oedd yn ffafriol i'w olygiadau ef—os oedd y fath yn bod—ac ymddifadu oesoedd i ddyfod, mor belled ag a allai, o adnod oedd Beza eisioes wedi ei chyhoeddi yn un o'r profion egluraf a chryfaf dros Dduwdod Crist." Textual Crit. pp. 487, 488. Dyma bin bach eto wedi maeddu tystion Mr. J. Mor wan raid fod y *system* na all wrthsefyll cysgod a phin bach!

5. Fy awdurdod nesaf yw Tischendorf. "Pan oeddwn yn ddiweddar yn Llundain, eb efe, chwiliais yn drwyadl a gofalus y lle 1 Tim. iii. 16; ac nis gallaf ddywedyd yr un peth a Griesbach am dano, geiriau yr hwn ydynt yn Symbol. Crit., p. x. s. 9. 'Y mae y rhan hono o'r ddalen, medd Griesbach, sydd yn cynwys y geiriad mewn dadl, wedi ei threulio gan ddwylaw dynion anghelfydd i'r fath raddau fel nas gall neb marwol y dydd heddyw gael allan ddim sicrwydd.' Y mae'r peth fel hyn. Y mae'r llinell (yr hon y mae Wetstein yn briodoli i Junius, Nov. Test. I. p. 20 et 21,) sydd wedi ei thynu uwchben OC yn ddu, a thew fel yn y Codex Rescriptus. Y mae ysgrifeniad y llawysgrif hon yn wir yn felynaidd, ac nid oes ond llythyrenau hardd o'r fath hyn. Dywedir fod y llinell hon felly ar y cyntaf, ond iddi gael ei hadnewyddu pan ar ddiflanu. Ond pwy allasai yn bwyllog ffurfio y llinell hon yn y dull yma os oedd yno yn barod â'r llaw gyntaf. Yn ofer yn sicr y cyfeirir ni at leoedd y llawysgrif hon sydd wedi treulio, er mwyn profi fod y llinell oedd ar ddiflanu

wedi ei hadnewyddu. Oblegid y mae PNI yn agos iawn at y lle hwn, lle y mae yr hen linell wedi ei chadw yn berffaith hyd yn awr, *egregie etiamnum conservata est linea antiquissima;* ac y mae talfyriadau eraill hefyd wedi eu cadw yn eglur.

"Mewn perthynas i'r llinell sydd wedi ei thynu trwy ganol yr O, ynghanol y llythyren yn unig y mae hon yn ymddangos, ac ymron fel *point.* Ond y mae'r point yma, yn gystal a'r llinell uwchben, o'r un duwch anghelfydd. Ar bob ochr, gan hyny, p'un ai wedi ei chrafu ymaith neu wedi diflannu y mae, y mae yn eithaf sicr nad oes dim o'i ôl wedi ei adael. Ond eto nis gallaf ddwyn fy hun i gredu y gallasai y llinell hon ymddangos yn un i'w hadferu neu ei hadnewyddu os oedd yno yn barod o'r dechreu. Gan hyny nid oes gan y dyb ynghylch adnewyddu y llinell ddim rhith tebygolrwydd, gan fod llythyrenau o'r fath o gylch y lle hwn wedi eu cadw yn dda hyd y dydd hwn.

"Oddiwrth hyn oll ymddengys fod y llawysgrif Alexandriaidd a'r Codex Rescriptus (Codex Ephrem) dros y darllenlad OC, ac mai i law ddiweddar iawn y mae y diwygiad QC yn ddyledus." Codex Ephrem p. 42. note 19.

Felly wele rywbeth heblaw cryg o enwau i Mr. J. i'w gwynebu. Ac hyd nes yr attebo y rhesymau sydd o'i flaen, ac nis gallaf mewn un modd weled pa fodd y gall eu hatteb, yr ydwyf yn hawlio A, Codex Alexandrinus, fel tyst yn erbyn *Theos.* Yn awr, Mr. J., yr wyf yn galw arnoch i ymdrechu yn deg, ac nid cilio heibio, gan feddwl y gwnaiff hyny y tro; neu ddallu y werin â chryglwyth o eiriau ymffrostgar. Os ydych yn alluog i'r ddadl, dewch ymlaen yn galonog: nid oes yr achos lleiaf i mi eich ofni ar dir beirniadaeth *ddiweddar.*

D.S Rhag i ddarllenwyr annysgedig dybied fod y ddadl yn troi ar lythyrenau yn unig, byddai cystal efallai eu hadgofio fod *Ho* yn arwyddo *hyn; Hos, hwn;* a *Theos, Duw.*—GOL.

ENGLYNION

I "Grwth Dyffryn Clettwr", a'i awdwr, Amnon, sef y diweddar Mr. Rees Jones, Pwllfein.

O'i Grwth ef ni chlywir rhagrithio—dim,
Ond ammeu a'i gwnelo;
Mewn synwyr y myn seinio,
Rhag un twyll, na rhegi'n to.

A ddysgo sydd lwyr ddwysgall,—e seinia
Gyson-waith wrth anghall;
E fyn i ddyn a fo'n ddall,
Ar air Duw, i roi'r dyall.

Gwiria ein lles, mewn geiriau'n llon,—heb [wall,
A'r dyall i'r deillion;
A gais sy'n hollol gyson
A gair Duw a'i gywir dôn.

Taro yn llwyr naturiol,—ar ei bwnge,
A wnai'r bardd dymunol;
A than warth yn ei wrthol
Y gyrai ffug eiriau ffol

E ry ran i'r gwan ym mhob gwedd,—o gân,
I gynnal tangnefedd;
Ni fyn roi mwy i fonedd,
A charu'r fuwch, ar aur fedd.

Mewn ystyr gall mai'n wastad,—a'i ddyfais
Sy'n ddifyr i'r teimlad;
I'n pliith ni ddaw un plethiad
Ar iaith yn uwch na CHRWTH nhad.

AMNON 2.

HIRHOEDLEDD.—Y mae yn perthyn i eglwys Caeronnen, ger Llanbedr, bedwar o aelodau o'r un dad a mam, yn yr oedran a ganlyn:—Anthony Davies, 90; John ei frawd, 87; Rachel, 83; Elizabeth, 75. Yr olaf sydd yn myned i Ferthyr, &c., bob wythnos gydag ymenyn, &c. Teuloedd cyfrifol iawn ydynt.—TAU GIMEL.

Kaneiou Cartrefol a Thramor.

Y SENEDD.

Nid oes nemawr o gyfrif i'w roddi am weithrediadau'r Senedd y mis diweddaf. Gwaith gweinyddiaeth Arg. Palmerston yn bresennol yw myned ymlaen â'r mesurau a ddechreuwyd gan y rhai fu o'u blaen mewn swydd. Pasir *estimates* y flwyddyn trwy Dŷ y Cyffredin gyda phob brys. Disgwylir gollyngiad i'r Senedd tua diwedd Awst.

Y Budget.—Ar y 18fed o Orphenaf dygodd Mr. Gladstone i mewn ei drefn ar Gyllid y deyrnas am y flwyddyn. Yr unig gyfnewidiad o bwys ar drethi'r wlad fydd ychwanegu pedair ceiniog y bunt at yr *Income Tax.* Gofynir yr ychwanegiad ar gyfer y draul anarferol mewn cyssylltiad â'r parotoadau dirfawr a wneir er gosod ein gwlad a'n trefedigaethau mewn cyflwr o amddiffyniad.

Y Dreth Eglwys.—Y mae gwell gobaith am ddilead buan o'r dreth hon yn awr nag sydd wedi bod oll. Y mae Arg. Palmerston, bellach, ac Arg. J. Russell, a phob un sydd yn y Weinyddiaeth, oddieithr Mr. Gladstone, yn pleidio yn wresog dros lwyr ddilead. Dygir ysgrif Syr J. Trelawny trwy Dŷ y Cyffredin yn bur hwylus hyd yn hyn. Ac y mae pob tebygolrwydd y cyrhaedda Dŷ yr Arglwyddi.

RHYFEL A HEDDWCH.

Darfu brwydr waedlyd Solferino, Mehefin 24ain, fod yn foddion i agor y drws i gael cytundeb heddwch. Emprwr Ffrainc oedd wedi enill y fyddugoliaeth; ac efe oedd y cyntaf i gynnyg ammodau heddwch. Ni fu Ymerawdwr Awstria mor ffol â gwrthod cynnygiad ag oedd mor ffafriol iddo. Mae Louis Napoleon wedi gweled yn gymmwys iddo gyhoeddi esgusawd am yr hyn a wnaeth; neu yn hytrach am nas cyflawnodd yr amcan a broffesai yn ngwydd Ewrop wrth ddechreu y rhyfel. Dywedodd y pryd hyny mai y peth oedd i gael ei benderfynu gan y rhyfel ydoedd, P'un ai oedd Itali i fod yn rhydd o'r Alps i'r Adriatic, neu ynte fod Awstria i lywodraethu yr holl orynys. Ond nid fel yna y rhed ei broclamasiwn yn y *Moniteur*, ar ei ddychweliad o'r rhyfel. Yno dywed, "Mae prif amcan y rhyfel wedi ei gyrhaedd, ac Itali, am y tro cyntaf, wedi dyfod yn wladwriaeth. Gwir fod Venetia yn parhau i fod yn nwylaw Awstria; ond er hyny hi a fydd yn dalaeth Italaidd, a ffurfia ran o'r Conffederasiwn Italaidd. Y mae uniad Lombardy gyda Piedmonte yn creu i ni gynghreiriad grymus, yr hwn a fydd yn ddyledus i ni am ei annibyniaeth. Bydd Itali, rhagllaw yn feistres ei thynged ei hun, a'i bai hi ei hun fydd os na wnaiff hi gynnydd mewn rhyddid a threfn. Chwi a ddychwelwch i wlad eich tadau, yr hon a'ch croesawa yn wresog fel milwyr a ddygasant ein harfau i'r fath ogoniant goruchel, ac a ryddhasant Piedmonte a Lombardy mewn dau fis, ac nad attaliasant hyd nes canfod fod y rhyfel yn dechreu ymehangu yn fwy nag yr amcanai Ffrainc ar y dechreu," &c. Y mae yr anghysondeb a'r croes-ddywediad yn rhy amlwg i'w nodi allan. Ennillodd L. Napoleon glod fel rhyfelwr nerthol a medrus. Collwyd tua chan mil o fywydau yn yr achos. Ac y mae yr Italiaid wedi cael eu gwerthu a'u bradychu ganddo. Mae cyflwr yr orynys yn waeth o lawer nag ydoedd cyn dechreu y rhyfel.

Da genym ddeall fod attaliad rhyw fodd ar dywallt gwaed. Cawn weled mewn ychydig wythnosau pa beth gyttunir arno gan Ffrainc ac Awstria mewn perthynas ag Itali. Nid oes genym fawr ymddiried yn yr heddwch brattiog a wnaethpwyd rhwng y ddau ormeswr. Ymddengys fod Emprwr Ffrainc yn teimlo yn ddolurus oherwydd fod ei ymddygiad yn cael ei gondemnio mor gyffredinol gan newyddiaduron Lloegr.

CYFARFOD BLYNYDDOL.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Llyfrau Undodiaid Gwlad yr Haf dydd Mercher, Gorph. 6fed, yn Twyn-yr-odyn, Merthyr. Dechreuwyd yr addoliad gan y Parch. Dr. Davison o Dudley, a phregethodd y Parch. W. James o Fristo'. Yn ei bregeth cymerodd gyfle i ddangos egwyddorion ac amcan y Gymdeithas Gristnogol oedd yn awr yn gwneud ei hail-ymweliad â Chymru.

Gwedi'r gwasanaeth crefyddol cyfarfyddwyd etto yn Assembly Room y Bush, lle yr oedd ciniaw wedi ei barotoi. Heb-

law'r gweinidogion yr oedd nifer mawr wedi dyfod ynghyd o foneddigion a boneddigesau Merthyr a'r gymydogaeth. Yn y cyfarfod a ganlynodd, er trafod materion y Gymdeithas, dan lywyddiaeth C. H. James, Ysw., cafwyd areithiau da neillduol, a derbyniwyd dros 50 o aelodau newyddion. Ac ymhlith pethau eraill penderfynwyd yn unfrydol, ar fod y Gymdeithas, rhagllaw, i gael ei chyfenwi, "The West of England and South Wales Unitarian Book Society."

Am 6 yn y diwedydd cynhaliwyd cyfarfod etto yn Twyn-yr-odyn mewn cyssylltiad âg Undodiaid y Deheubarth. Dechreuwyd yr addoliad gan y Parch. J. B. Lloyd o Moreton Hampstead; a phregethodd y Parch. W. A. Jones o Taunton, yn Saesnaeg, a'r Parch. Dr. Lloyd, yn Gymraeg.

Bore dranoeth (Iau, y 7fed) yr oedd Cwrdd Blynyddol Undodiaid Cymru i fod ar Gefn Coedycymer. Yr oedd nifer lluosog wedi dyfod ynghyd i'r Hen Dŷ Cwrdd. Pregethodd y Parch E. Higginson o Abertawe, yn Saesnaeg, a'r Parch. T. Thomas, Pantydefaid, yn Gymraeg. Testun y Gynnadledd a ganlynodd oedd, "Dylanwadau'r Ysprydol." Llefarwyd arno gan y Parchn. Dr. Lloyd, J. E. Jones, a J. James. Cyttunwyd ar fod y Cwrdd Blynyddol nesaf i fod yn Rhydy-gwin, Ceredigion; a'r Cwrdd Cwarterol nesaf, yn y Cwmbach, gor Aberdâr.

Cafwyd cwrdd da etto yn yr hwyr, pan y pregethodd y Parchn. E. W. Lloyd a John James.

MARWOLAETHAU.

Bu farw, y 4ydd dydd o'r mis diweddaf, yn 88 ml. oed, Mr. James Phillips, Blaentrafle, plwyf Llanwinio, Swydd Gaerfyrddin; yr hwn fu yn aelod rheolaidd gyda'r Undodiaid yn Rhydyparc tua 60ain mlynedd.

Yr oedd tad y trancedig yn un o bedwar brawd, sef John, David, Theophilus, a James Phillips; dichon mai David Phillips, yr hwn oedd yn byw yn Pantymaen, ger Rhydyparc, oedd fwyaf adnabyddus i'r corph Undodaidd, oherwydd ei fod yn fwy selog a chyhoedd yn eu plith, ac yn pregethu yn achlysurol; er nad oedd wedi cael ei ddwyn i fynu yn fwriadol i'r weinidogaeth gyhoeddus. Mae y pedwar brawd a enwyd yn gorwedd yng nghladdfa Rhydyparc; ac er dangos y fan y gorphwysant gosodwyd ar eu beddau feini coffadwriaethol cyflawn a hardd.

Yr oedd gan y trancedig James Phillips, Blaentrafle, un brawd, sef David Phillips o'r Pilmawr, yr hwn feddai ar gynneddfau cryfion, a chafodd ddysgeidiaeth dda i'w cwrteithio; yr oedd yn feddiannol hefyd ar gyfran o'r awen brydyddawl, fel y gwelir yn yr Hymnau a Chân y Drindod gyfansoddodd ac a ymddangosodd yn ei ddydd trwy yr argraffwasg. Er nad oedd ein cyfaill ymadawedig, Mr. James Phillips, wedi cael ei freintio â thuedd i fod o wasanaeth cyhoeddus o blaid Undodiaeth, etto yr oedd yn hynod o barod a thueddol i grybwyll ei syniadau crefyddol yn y gwahanol gyfeillachoedd y gofynai amgylchiadau ei bresenoldeb. Yn nghanol ei ddyddiau yr oedd yn hyddysg neillduol yn achosion plwyfol a rheolau cyffredin ei wlad; a dangosai bob amser yspryd o gydymdeimlad â'r tlawd a'r rheidus. Yn fynych talai Ustusiaid yr heddwch y parch iddo o hysbysu eu dymnniad iddo fod yn bresenol pan fuasai unrhyw bwnc o bwys dan eu hystyriaeth perthynol i'r plwyf lle 'roedd ef yn byw. 'Roedd ei wybodaeth a'i barodrwydd yn fuddiol neillduol i ysgrifenu cytundebau a gweithredoedd; a'i duedd gwastadol oedd rhagflaenu ymryson a chynnen, a chreu undeb a heddwch i'r mesurau helaethaf y gallasai. 'Roedd ei dŷ yn agored a'i fwrdd yn huliedig bob amser i bregethwyr Rhydyparc ac eraill, a chynhorthwyai wrth raid bawb i'r graddau y gallasai yn rhesymol. Yn brawf o hyn, at brofion cyffredin ei oes, tansgrifiodd wythnos cyn ei farwolaeth y swm o ddeuddeg punt tuag at ail adeiladu capel Rhydyparc, yr hyn a amcanir wneud y flwyddyn nesaf: a diau y ca addewid y brawd ymadawedig ei chyflawni, pan y gofynir allan o'i feddiannau gan ei fab, Mr. Rees Phillips, sy'n byw yn bresenol yn Blaentrafle.

Felly bu fyw Mr. James Phillps fywyd o les a defnyddioldeb i'w gymydogion, o anrhydedd a chynhorthwy i'r achos Undodaidd yn Rhydyparc, o gysur a diddanwch iddo ei hun fel proffeswr crefydd dros driugain mlynedd o amser; a hunodd yn y ffydd gofleidiodd yn ei fywyd; a bu farw mewn henaint teg, wedi byr ysgafn gystudd, a chladdwyd ef ymhlith llawer o'i berthynasau cyfrifol yn monwent perthynol i Rhydyparc, lle yr huna nes y defiroa Duw ei blant oll o drwmgwsg y bedd, i fyw byth ar ororau anfarwoldeb, yn y breswylfod briodol honno a drefna Duw ein Tad i bob un o'i blant rhesymol.

Caerfyrddin. TITUS EVANS.

Bu farw, Gorphenaf 13eg, yn 24 mlwydd oed, Mr. Taliesin Lloyd, mab Mr. Richard Lloyd, o'r Castle Tavern, Pontypridd. Yr oedd yr ymadawedig yn ddyn ieuanc ffyddferth a deallus, ac wedi ennill serch a pharch y rhai a'i hadwaenent. Teimlir hiraeth mawr ar ei ol.

Barddoniaeth.

At Olygydd yr Ymofynydd.

Syr,—Wyf yn gofyn eich hynawsedd ar ran Ann Thomas (neu fel ei gelwir yn gyffredin Nani Richard Shiencyn) i weled yn dda osod y Gân ragorol hon yn yr *Ymofynydd*, yr hon a dderbyniodd (er ys pythefnos yn ol) mewn llythyr oddiwrth ei mab o America. Yr hyn sydd yn peri fod y Gân yn werthfawroccach fyth yng ngolwg yr hen wraig ydyw, fod mab arall iddi, hir-gystuddiol gartref, yn huno yn yr angau, ar waith y llythr-gludydd yn dyfod â llythyr ei frawd i'r tŷ. Buasai yn dda genyf pe gallaswn ddweyd pwy yw yr awdwr, ond nis gwn.

Yr eiddoch yn barchus,
Cynonwyson.

Trecynon, Maw. 10, 1859.

TYNERWCH MAM.

Ton—*Cwynfan Brydain.*

Tynerwch Mam! O anwyl enw!
Pa beth yw Tynerwch Mam?
Teimlad mad y galon serchog,
Mewn dwys ofal rhag gwneud cam;
Ymdrech cariad diamddiffyn,
Serch mewn gofid, aiddgar am
Esmwyth gyflwr ei hoff blentyn,
Dyna yw Tynerwch Mam.

Ni cha tanbaid wres yr huan
Wneuthur niwed byth i'r gwan,
Gwell yw ganddi ddiodde'r cyfan,
Boddlon fydd i ddal ei rhan:
Pan fo 'stormydd gauaf gerwin
Yn ymwylltu, fel pe am
Darfu bywyd ei hoff blentyn,
Lloches sydd yn mynwes Mam.

Bu heb gysur oriau meithion
Yn gwylio gorwych ffrwyth ei ben,
Pan yr wylai rhoddai'r ddwyfrŵn
Yn ei enau—suai'n gu;
A'i gofleidio wna i'w mynwes,
Rhag y digwydd un drwg nam,
Rhydd ei hunan oll yn achles,—
Gwerthfawr yw Tynerwch Mam.

Pan yn nhrymllyd garchar cystudd,
Mam fydd yno'n sychu'r chwys,
A'i holl ymdrech a fydd beunydd,
Lleddfu ei drallod gyda brys.
Diwedd nid oes i'w thynerwch,
Tra fydd byw fe bery'r fflam;
O bob gem a pherlau tegwch,
Uwchaf yw Tynerwch Mam.

Pan fydd angau yn darostwng,
Ac yn pallu bywiog drem,
A'i beirianwaith yn ymollwng,
Ganddi hi mae'r werthfawr em;
Gweini wnai ei holl gysuron
Yn erbyn gobaith, ond paham,
Teimlad byw sydd yn ei chadw,
Rhyfedd yw Tynerwch Mam.

Pan y rhoir ei phlant mewn beddrod,
Rhydd hithau ddagrau gyda hwy;
Nid yw'r meddwl byth yn darfod,—
"O! na allwn wneuthur mwy,"
Yw ei llais hi yn feunyddiol,
Er i'w rheswm waeddi am
Ei distawrwydd, yn wastadol
Dagrau rydd Tynerwch Mam.

GWERTHFAWROGRWYDD GAIR DUW.

Mesur M. C. D.

Gair mawr ein Duw, gair melus iawn,
Gair gwerthfawr yw i ni,
Mae ynddo bêr drysorau'n llawn,
O fwyniant fal y lli;
Mae'n well na holl deganau'r byd,
Pe caem hwy gyd yn grwn,
Mae'n wir oleuni in' o hyd,—
Hyderwn fyth yn hwn.

Rhydd addysgiadau clau, O clyw,
Ei lais, gwynfydig lef,
Llwyr ufuddhau boed dynolryw
I'w holl gynghorion ef;
Os cadw'n golwg arno wnawn,
Diball, tra byddom byw,
Cawn brofi gwynfyd, llwyddfyd llawn,
Cawn brawf o gariad Duw.

Cawn ynddo sicrwydd Duw ein Tad,
'Nol ini fyn'd i'r bedd,
Yn adgyfodiad ei Fab rhad,
Cawn eilwaith newid gwedd;
Mor hyfryd ini fydd y fraint,
Uwchlaw pob loes a chlwy,
Fydd cael cymdeithas gyda'r saint,
Heb ofni 'madael mwy.

Aberdar. Eiddil Glan Cynon.

ENGLYN Y DDADL.

Am *hos* a *Theos* ni thawant;—gwneud Duw
O gnawd dyn ni's medrant;
Am Fab Saer yr ymdaerant,
Gan ameu'r gwir, gan Mair gânt.

Amnon.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.